



CASCADE

Children's Social Care
Research and Development Centre

Canolfan Ymchwil a Datblygu
Gofal Cymdeithasol Plant

Datblygu Cynghrai Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu

**Adroddiad terfynol
Awst 2020**

**Nina Maxwell^a, Julie Doughty^b a Catrin
Wallace^a**

^aCASCADE, Prifysgol Caerdydd.

^bYsgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth, Prifysgol
Caerdydd

Cynnwys

Cynnwys	2
1.0 Crynodeb	4
1.1 Cyflwyniad	4
1.2 Dull	4
1.3 Prif ganfyddiadau	4
1.3.1 Teuluoedd sy'n gwahanu	4
1.3.2 Pa wasanaethau sydd ar gael i gefnogi teuluoedd sy'n gwahanu?	5
1.3.3 Datblygu Cynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu	5
1.4 Trafodaeth	6
2.0 Cyflwyniad	7
3.0 Dull	10
3.1 Ymarfer mapio	10
3.2 Ymgysylltu â rhanddeiliaid	11
Ymgynghoriad 3.3	12
4.0 Teuluoedd sy'n gwahanu	13
4.1 Strwythurau teuluol	13
4.2 Pam y mae rhieni yn mynd i'r llys?	14
4.2.1 Effaith COVID-19	17
4.3 Sut mae rhieni yn cael gafael ar wasanaethau?	19
4.3.1 Diwallu anghenion amrywiol teuluoedd	20
4.3.1 Anghenion ieithyddol	22
5.0 Pa wasanaethau sydd ar gael i gefnogi rhieni sy'n gwahanu?	24
5.1 Darparu Staff	24
5.1.1 Cefnogaeth perthnasau	25
5.1.2 Rhaglenni rianta	26
5.1.3 Cyfryngu	27
5.1.5 Canolfannau Cyswllt	29
5.1.6 Dulliau gweithredu eraill nad ydynt yn seiliedig ar y llys	29
6.0 Datblygu Cynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu	33

6.1 Cyfeiriad strategol	33
6.2 Gwelededd a hygyrchedd	34
6.3 Sicrhau Ansawdd;	35
6.4 Opsiwn dim cost ychwanegol	36
6.4.1 Senario un	38
6.5 Adnoddau ychwanegol cyfyngedig	39
6.5.1 Senario dau	41
6.6 Adnodd sylweddol a pharhaus	42
6.6.1 Senario tri	43
7.0 Trafodaeth	45
Cyfeiriadau	49
Atodiad A: Cyfweliad lled-strwythuredig:	52

1.0 Crynodeb

1.1 Cyflwyniad

Mae nifer y ceisiadau cyfraith breifat wedi bod yn cynyddu, gyda disgwyliadau afrealistig gan rieni o'r hyn y gall y llys ei wneud, a'r hyn y dylai wneud. Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2020 i nodi pa wasanaethau sy'n cefnogi teuluoedd sy'n gwahanu ar hyn o bryd ac ystyried yr opsiynau sydd ar gael i greu cynghreiriau teulu lleol sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

1.2 Dull

Mae'r astudiaeth gwmpasu yn cynnwys tair prif elfen casglu data, sef:

1. Cynhaliwyd ymchwil er mwyn nodi a mapio'r ddarpariaeth bresennol. Ategwyd hyn gan arolwg ar-lein a gwblhawyd gan wyth rhanddeiliad a thrafodaethau anffurfiol â chwe rhanddeiliad.
2. Cynhaliwyd cyfweiliadau â 22 o randdeiliaid o wasanaethau gwirfoddol a ariennir, mentrau cymdeithasol, cwmnïau cyfyngedig a gwasanaethau statudol. Cynhaliwyd grŵp ffocws â dau berson ifanc.
3. Ymgynghorwyd â thri ar ddeg o randdeiliaid.

1.3 Prif ganfyddiadau

1.3.1 Teuluoedd sy'n gwahanu

- Mae plant yn byw mewn amrywiaeth o strwythurau teuluol lle mae'n bosibl na fydd rhieni wedi bod mewn perthynas neu lle nad ydynt erioed wedi cyd-fyw, a gall gynnwys aelodau o'r teulu estynedig fel neiniau a theidiau, yn ogystal â theuluoedd ailgyfansoddedig yn cynnwys llysrieni a brodyr a chwiorydd ychwanegol.
- Mae pobl ifanc yn teimlo'n ddryslyd a/neu'n rhwystredig pan fydd pobl nad ydynt yn eu hadnabod yn gwneud penderfyniadau am eu bywydau. Dylai pobl ifanc gael eu cynnwys yn y broses gyfryngu a dylai mwy o wybodaeth fod ar gael iddynt am rieni sy'n gwahanu.
- Anghytuno ynghylch trefniadau plant (trefniadau byw a chyswllt) yw'r ffynhonnell fwyaf o anghydfod. Lle bydd anghytundebau, ymddengys mai ceisiadau cyfraith breifat yw'r dewis diodyn i rieni gan fod ganddynt ddisgwyliadau afrealistig o'r llys.

- Mae COVID-19 yn cael effaith negyddol ar rai teuluoedd, gan arwain at gyfraddau uwch o rieni'n gwahanu ac anghytundebau ynghylch cyswllt. Mae'r cynnydd yn y defnydd o dechnoleg cyfathrebu wedi bod yn fuddiol yn ystod y cyfyngiadau symud, ond dylai'r gwasanaethau a ddarperir gynnwys galwadau fideo a chymorth personol.
- Ar hyn o bryd, mae rhieni'n cael gafael ar gymorth â materion sy'n ymwneud â gwahanu drwy'r llys neu hunangyfeirio. Fodd bynnag, mae atgyfeiriadau'n dibynnu ar wybodaeth ac argaeledd y gwasanaethau a ddarperir. At hyn, mae rhai grwpiau o rieni yn gwrthod gwasanaethau, yn anweladwy neu heb gael eu cynrychioli'n ddigonol. Mae angen ystyried sut i ymgysylltu â'r grwpiau hyn a darparu mynediad cyfartal iddynt i gael cymorth a chefnogaeth.

1.3.2 Pa wasanaethau sydd ar gael i gefnogi teuluoedd sy'n gwahanu?

- Mae loteri cod post o ran y gwasanaethau a ddarperir. Tra bod amrywiaeth eang o wasanaethau ar gael mewn rhai ardaloedd, ceir mynediad mwy cyfyngedig mewn ardaloedd eraill, ac mae'n rhaid i rai rhieni deithio pellteroedd hir er mwyn cael cymorth.
- Yn gyffredinol, gall rhieni sy'n gwahanu gael gafael ar gymorth i deuluoedd, rhaglenni rianta a gwasanaethau cyfryngu. Mae canolfannau cyswllt hefyd yn darparu cymorth ychwanegol, gyda rhai canolfannau'n cynnig gwasanaethau cyfeirio ac yn ganolfan ar gyfer derbyn cymorth a chefnogaeth.
- Roedd y canfyddiadau'n dangos, drwy ddulliau wedi'u llywio gan drawma, cynadleddau grŵp teulu ac arferion adferol, fod rhieni'n cael cymorth teulu cyfan pan fydd eu cydberthynas yn chwalu ac wrth flaenoriaethu llesiant y plentyn.

1.3.3 Datblygu Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu

- Mae angen clir am Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu er mwyn meithrin ymgysylltiad, dylai'r cyfeiriad strategol gael ei bennu'n genedlaethol gan Lywodraeth Cymru, a dylai'r broses weithredu gael ei phennu'n lleol yn unol ag anghenion.
- Mae effeithiolrwydd y gynghrair yn dibynnu ar ymwybyddiaeth eang a bod pobl yn teimlo bod defnyddio a derbyn cymorth a chefnogaeth yn dderbyniol pan fydd cydberthynas yn chwalu.
- Dylid mabwysiadu dull gweithredu iechyd cyhoeddus sy'n ymestyn darpariaeth ac yn ei chanolbwyntio ar ffurfio cydberthnasau cadarnhaol yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd mewn ysgolion o dan y cwriclewm newydd.

- Dylai'r gynghrair hyrwyddo cynnwys amrywiaeth o wasanaethau amlddisgyblaeth wrth ddarparu siop un stop i bob aelod o'r teulu, lle cânt eu grymuso i nodi'r cymorth sydd fwyaf addas ar gyfer eu hamgylchiadau unigryw a hynny cyn, yn ystod ac ar ôl gwahanu.
- Cyflwynir tri senario:
 1. Cynnwys y gynghrair yn y Gronfa Gynghori Sengl a ddarperir gan Cyngor ar Bopeth a'i bartneriaid.
 2. Cynnwys y gynghrair o fewn un o chwaer-ganghennau Cafcass Cymru.
 3. Sefydlu 'Cydberthnasau Cymru', sef platfform digidol gyda llinell gymorth.

1.4 Trafodaeth

- Gwella'r gydberthynas rhwng rhieni yw'r prif offeryn ar gyfer datrys anghydfod cyn, yn ystod, ac ar ôl gwahanu.
- Bydd llwyddiant y Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu yn dibynnu ar barodrwydd y cyhoedd i dderbyn cymorth cydberthnasau a gwelededd y cymorth hwnnw.
- Er mwyn hyrwyddo mynediad cyfartal, dylai'r Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu gynnwys cydbwysedd o bresenoldeb digidol a chymorth personol, boed yn ffisegol neu drwy linell gymorth.
- Rhaid rhoi ystyriaeth i hawl y plentyn i gael ei farn wedi'i chlywed mewn perthynas â materion barnwrol a gweinyddol. Felly, mae'n rhaid i'r gynghrair sicrhau bod llais y plentyn i'w glywed drwy wella'r ffordd y caiff ei gynnwys o fewn gwasanaethau a'r broses farnwrol.
- Yn olaf, bydd y gynghrair ond yn llwyddo os bydd gan deuluoedd yr adnoddau ariannol i dalu am wasanaethau preifat, lle y bo'n briodol, a bod sefydliadau'n gallu parhau i gynnig y gwasanaethau hyn ar ôl Covid-19.

2.0 Cyflwyniad

Yn 2018, gwnaed 3,390 o geisiadau cyfraith teulu preifat yng Nghymru, yn ymwneud â 4,530 o blant. Mae'n anodd pennu faint o'r ceisiadau hyn sy'n gysylltiedig â rhieni sy'n gwahanu am nad oes unrhyw ffordd o wahaniaethu rhwng achosion lle mae teuluoedd yn y broses o wahanu, ac achosion lle nad yw'r rhieni'n byw gyda'i gilydd mwyach neu nad ydynt erioed wedi cyd-fyw (Cusworth et al. ar ddod). Ymddengys fodgorddibyniaeth gynyddol ar lysoedd teulu, gyda rhieni â ddisgwyliadau afrealistig o'r hyn y gall y llysoedd ei wneud a'r hyn y dylent ei wneud (Gweithgor Cyfraith Breifat, 2019, 2020). Mae'r Gweithgor Cyfraith Breifat wedi nodi y gallai'r broses waethygu'r gwrthdaro gan fod llysoedd teulu yn gyfrwng amhriodol ar gyfer datrys anghydfodau rhwng rhieni. Er gwaethaf ymdrechion olynol gan lywodraethau (wedi'u cefnogi i raddau helaeth gan ymchwil) ers y 1990au cynnar i gyfeirio mwy o deuluoedd o ymglyfreitha a thuag at ddulliau amgen o ddatrys anghydfodau, ymddengys mai troi at lysoedd yw'r opsiwn diofyn i lawer o hyd.

Un o nodau'r Rhaglen Trefniadau Plant (CAP), a gyflwynwyd yn dilyn yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol (Panel yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol, 2011) a Deddf Plant a Theuluoedd 2014, oedd tynnu'r achosion risg isel o'r llysoedd, ond ar ôl gostyngiad cychwynnol yn y ceisiadau, mae llwyth gwaith y llysoedd wedi cynyddu. Yng Nghymru, cynyddodd nifer y ceisiadau fesul blwyddyn 27% rhwng 2014 a 2019. Yn sgil tynnu cymorth cyfreithiol o'r rhan fwyaf o achosion a'r toriadau i gyllidebau llysoedd, ystyrir bod y cynnydd hwn bellach yn anghynaliadwy. Gofynnodd llywydd yr Is-adran teuluoedd, felly, i'r Weithgor Cyfraith Breifat adolygu'r CAP; un o'i argymhellion oedd creu cynghreiriau o wasanaethau teuluoedd lleol sy'n cynnig cymorth integredig sy'n canolbwyntio ar y plentyn i deuluoedd sy'n gwahanu (a elwir yn 'Gynghreiriau Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu'). Yn wreiddiol, cafodd y CAP ei anelu at gadw'r ffocws ar y posibilrwydd o ddulliau amgen o ddatrys anghydfod ar bob cam o'r trafodion, fel bod modd i achosion cael eu tynnu allan o'r system yn ddiweddarach, pan fo hynny'n briodol. Er ei fod yn ymddangos bod y cysyniad hwn wedi cael ei roi o'r neilltu oherwydd pryderon y gallai achosi oedi, aeth y Grŵp ati i ymgynghori â gwasanaethau a all gynorthwyo'r partion yn ystod achosion, a dylai'r rhain gael eu hystyried yn bartneriaid posibl mewn cynghrair o'r fath. Ar ôl cyhoeddi ail adroddiad y Gweithgor Cyfraith Breifat ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder adroddiad, sef 'Assessing risk of harm to children and parents in private law children cases' (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2020). Mae'r adroddiad hwn yn rhybuddio yn erbyn lleihau dibyniaeth ar y llys pan fydd honiadau neu bryderon am gam-drin domestig neu ddiogelu plant. Er bod yr amcangyfrifon yn amrywio, derbynnir yn gyffredinol bod nodweddion o'r fath yn perthyn i 60% o achosion cyfraith breifat. Felly dim ond cyfran benodol o achosion sy'n addas ar gyfer dulliau amgen o ddatrys anghydfod y tu allan i'r llys. Byddai angen i'r gwaith o ddatblygu Cynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu gynnwys systemau effeithiol o nodi pa achosion y mae angen iddynt fynd i'r llys.

Mae gan y fframwaith deddfwriaethol yng Nghymru a Lloegr egwyddor unedig mai llesiant y plentyn yw'r flaenoriaeth, ond mae'r pwyslais yn wahanol yng nghyfraith gyhoeddus a chyfraith breifat. O dan yr olaf, cymhwysir yr egwyddor 'dim gorchymyn' o dan adran 1(5). Bwriadwyd i hyn annog rhieni i beidio â cheisio cyswllt adran 8 a gorchmynion preswyllo fel mater o drefn (gorchmynion trefniadau plant erbyn hyn). Fodd bynnag nid yw hyn wedi arwain at ostyngiad yn nifer y ceisiadau cyfraith breifat i rieni yn y categori risg isel. Ymddengys fod tensiwn rhwng canfyddiad rhai rhieni fod eu hanghydfodau yn briodol ar gyfer ymglyfreitha, a barn rhai gwasanaethau mai dim ond achosion lle mae'r ffin yn niwlog o ran pryderon diogelu plant cyfraith gyhoeddus sy'n ddigon difrifol i fynd i'r llys. Canfu'r Gweithgor Cyfraith Breifat dystiolaeth fod lefel uchel o anghenion heb eu diwallu am fod yr adnoddau a'r gwasanaethau presennol a oedd am ddim neu'n fforddiadwy i fynd i'r afael â gwrthdaro o fewn teuluoedd yn elfennol ac yn ddarniog a bod y cymorth i deuluoedd a ddarparwyd yn afreolaidd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol am fod ymchwil yn dangos yn gyson bod y canlyniadau gorau i blant, ar ôl i'w rhieni wahanu, yn gysylltiedig ag ansawdd y rhianta a gânt, ffactorau ymarferol fel y cartref a lefel incwm, ac ansawdd cydberthynas y rhieni (Fehlberg *et al.*, 2011; Pruett a DiFonzo, 2014). Lle caiff plant eu dal yng nghanol gwrthdaro rhwng rhieni, mae risg uwch o ganlyniadau gwaeth, gan gynnwys iechyd meddwl gwael, cyrhaeddiad addysgol, hunan-barch a llesiant (Amato, 2006; Murch, 2018).

Ffactor arall sy'n cymhlethu'r sefyllfa yw'r ffaith bod cyfrifoldeb am wasanaethau plant a theuluoedd (gan gynnwys Cafcass Cymru) wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru, ond mai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder oedd yn dal i fod yn gyfrifol am y Gwasanaeth Llysoedd a hyfforddiant barnwrol. Er enghraifft, o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gall plentyn mewn teulu sydd wedi gwahanu fod yn gymwys i gael mwy o wasanaethau o dan Gynllun Cymorth Asesu Plentyn na phlentyn tebyg yn Lloegr. Mae'n bosibl, fodd bynnag, na fydd y llysoedd yn ymwybodol o hyn.

Yng Nghymru, mae amrywiaeth o wasanaethau arbenigol a chymunedol sydd ar gael i ddiwallu anghenion amrywiol teuluoedd, ac eto mae diffyg cydlyniant ac ymwybyddiaeth o ran y ddarpariaeth bresennol. Nid yw sefyllfa fratiog o'r fath yn unigryw i Gymru. Canfu adolygiad ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau fylchau rhwng gwasanaethau cyfryngu, cwnsela cydberthnasau, rhaglenni rhianta, canolfannau cyswllt a diffyg cyffredinol yn y cydweithredu a'r cyfathrebu rhwng asiantaethau. Mae angen datblygu gwasanaethau cofleidiol sy'n rhoi cymorth i deuluoedd cyn, yn ystod ac ar ôl gwahanu, y tu allan i'r llysoedd, lle mae hynny'n briodol (Marjoribanks, 2015).

Yng nghyd-destun anghenion cymorth teuluoedd lle mae'r problemau yn y gydberthynas rhwng rhieni sydd wedi gwahanu yn effeithio'n negyddol ar blant, ynghyd â'r cymorth a fydd yn eu helpu i ddod o hyd i ddatrysiad y tu allan i'r llys, comisiynwyd yr astudiaeth gwmpasu hon er mwyn gwneud y canlynol:

1. Nodi pa wasanaethau sydd ar gael yng Nghymru i gefnogi teuluoedd sy'n gwahanu, ac
2. Ystyried yr opsiynau sydd ar gael i greu cynghreiriau teuluoedd lleol sy'n canolbwyntio ar y plentyn a all ddiwallu anghenion amrywiol teuluoedd sy'n gwahanu.

Er mwyn diwallu'r anghenion hyn, casglwyd data o dair ffynhonnell (1) ymarfer i fapio gwasanaethau presennol, (2) canfyddiadau o gyfweiliadau â rhanddeiliaid allweddol, a (3) ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol. Yn seiliedig ar y canfyddiadau, cyflwynir tri senario ar gyfer Cynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu sy'n lleihau nifer y rhieni sy'n gwneud ceisiadau cyfraith breifat yng Nghymru.

3.0 Dull

Gan ddilyn egwyddorion ymchwil weithredu, aeth yr astudiaeth ati i ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn cylch dynamig o ymchwilio sy'n canolbwyntio ar broblemau, yn benodol i'r cyd-destun ac yn wynebu'r dyfodol (Waterman et al., 2001:4) er mwyn rhoi newid ar waith. O fewn y cylch hwn, defnyddiwyd canfyddiadau o'r tri llif gwaith i ddatblygu a llywio ei gilydd mewn ffordd ailadroddol:

1. Ymarfer mapio
2. Ymgysylltu â rhanddeiliaid
3. Cyfarfodydd ymgynghori

Cynhaliwyd yr astudiaeth rhwng mis Mawrth a mis Awst 2020. Roedd yr amserlen hon yn cyd-daro â chyfyngiadau symud Covid-19, a ddechreuodd ar 23 Mawrth ac a ddechreuodd lacio o 1 Mehefin. O fewn y cyd-destun hwn, roedd yn rhaid diwygio'r cynllun ymchwil gwreiddiol, gan symud y gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyfarfodydd bord gron ar-lein, gan ddefnyddio technoleg sain neu glyweledol. Cafodd y cyfyngiadau symud ddwy brif effaith ar yr astudiaeth. Yn gyntaf, gohiriwyd y gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid tra bod y sefydliadau'n ymgyfarwyddo â ffyrdd newydd o weithio. Yn ail, roedd y gyfradd ymateb i'r arolwg ar-lein ar gyfer yr ymarfer mapio yn wael. Nid oedd yn bosibl pennu a oedd hyn oherwydd bod staff ar ffyrlo, capasiti cyfyngedig neu am fod rhanddeiliaid wedi penderfynu peidio â chymryd rhan. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o bob llif gwaith.

3.1 Ymarfer mapio

Cynhaliwyd ymchwil pen desg i nodi a mapio'r ddarpariaeth bresennol gan gynnwys gwasanaethau arbenigol, e.e. cyfryngu, cydberthnasau, rhianta, a gwasanaethau â'r nod o ddiwallu anghenion amrywiol teuluoedd, gan gynnwys BAME, LBGTQ+ ac anableddau ledled Cymru. Er mwyn cwmparu'r gwasanaethau presennol a ddarperir a nodi rhwydweithiau ffurfiol neu anffurfiol presennol o wasanaethau ar gyfer teuluoedd sy'n gwahanu, cafodd y llif gwaith hwn ei lywio gan ganfyddiadau arolwg ar-lein. Estynnwyd gwahoddiad i dri deg pump o sefydliadau gwblhau'r arolwg ar-lein. Roedd yr arolwg yn cynnwys ystod o gwestiynau agored a chaeedig yn ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir, atgyfeirio at sefydliadau eraill a safbwyntiau am y Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu. O'r 35 a gafodd eu gwahodd, roedd wyth wedi cymryd rhan, sef cyfradd ymateb o 23%. Roedd y rhain yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaethau, Cyfarwyddwyr a Rheolwyr sefydliadau preifat, sefydliadau elusennol a gwasanaethau statudol. Nid yw'n glir pam fod y gyfradd ymateb mor isel. Mae'n bosibl bod rhai sefydliadau'n dioddef o ddiffyg capasiti oherwydd Covid-19, naill ai am fod staff ar ffyrlo neu lle roeddent yn rhy brysur yn ymateb i alw cynyddol am eu gwasanaethau. Neu efallai na wnaeth rhai sefydliadau gymryd rhan am nad oeddent yn cynnig gwasanaethau

uniongyrchol i rieni sy'n gwahanu. Nodwyd bod rhai sefydliadau sy'n darparu cymorth yn benodol i fenywod heb ymateb. Aflwyddiannus fu ein ceisiadau i drafod â Gwasanaeth y Llysoedd, er y cafwyd rhywfaint o fewnbwn gan ynadon.

Roedd yr ymarfer mapio hefyd yn cynnwys cydgysylltu ag ystod o randdeiliaid nad oedd ganddynt rôl uniongyrchol yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau i deuluoedd sy'n gwahanu ond sydd yn cyfeirio teuluoedd at y ddarpariaeth sydd ar gael. Gwahoddwyd un deg pedwar o randdeiliaid i gymryd rhan. O'r rhain, cymerodd chwe randdeiliad ran mewn trafodaethau anffurfiol yn ymwneud â'u rôl gyda theuluoedd sy'n gwahanu a'u gweithgareddau cyfeirio.

3.2 Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Gwahoddwyd rhanddeiliaid i gymryd rhan mewn cyfweiliad lled-strwythuredig dros y ffôn. Dechreuodd y cyfweiliad (Atodiad A) drwy ofyn i ymatebwyr am eu sefydliad, ei wasanaethau a'r ffordd yr oedd yn cefnogi anghenion amrywiol plant a theuluoedd, gan gynnwys BAME, LGBTQ+ a'r rhai ag anableddau. Gwahoddwyd yr ymatebwyr hefyd i roi sylwadau ar Gynghreiriau Cymorth i Deuluoedd sy'n Gwahanu, gan gynnwys manteision a heriau, yn ogystal ag unrhyw faterion penodol sy'n codi o'r pandemig Covid-19 presennol.

Cafodd tri deg un o randdeiliaid eu gwahodd i gael eu cyfweld. Roeddent yn cynrychioli amrywiaeth o sefydliadau statudol, gwirfoddol a thrydydd sector. O'r rhain, cynhaliwyd 22 o gyfweiliadau (cyfradd ymateb o 71%) gydag amrywiaeth o randdeiliaid. Roedd y rhain yn cynnwys Prif Weithredwyr o fentrau cymdeithasol, mentrau gwirfoddol a ariennir a chwmnïau cyfyngedig, rheolwyr o wasanaethau statudol, fel y Tîm o Amgylch y Plentyn a Chymorth Cynnar, a sefydliadau elusennol, fel canolfannau cyswllt. Cymerodd cynrychiolwyr o Cafcass Cymru a Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru ran. Yn dilyn cais gan Fwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluoedd, cynhaliwyd un grŵp ffocws yn cynnwys dau berson ifanc. Er mwyn cydymffurfio â chyfyngiadau Covid-19, hwyluswyd y grŵp hwn gan gynrychiolydd o Fwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluoedd, yn hytrach nag aelod o'r tîm ymchwil. Gwahoddwyd pobl ifanc i roi sylwadau ar addasrwydd llys i ddatrys materion teuluol, gwasanaethau a ddarperir a'u safbwyntiau ar y Gynghrair Cymorth i Deuluoedd sy'n Gwahanu.

Cafodd yr holl ddata eu cofnodi a'u crynhoi. Cafodd data eu dadansoddi drwy ddadansoddiad thematig 'cod ac adalw' (gweler Coffey ac Atkinson, 1996), a hwyluswyd gan feddalwedd NVivo 12. Datblygwyd a chytunwyd ar ffrâm codio ('coeden nodau' yn nhermau NVivo) gan is-grŵp o'r tîm ymchwil, ar ôl darllen nifer bach o drawsgrifiadau'r cyfweiliadau yn ofalus.

3.3 Ymgynghoriad

Yn seiliedig ar ganfyddiadau gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r ymarfer mapio, defnyddiwyd trafodaeth bord gron gydag ystod o randdeiliaid allweddol i lywio a mireinio'r tri senario. Yng ngoleuni'r pandemig, diwygiwyd y drafodaeth bord gron i gyfres o gyfarfodydd ymgynghori dros alwad fideo. Nod y cyfarfodydd ymgynghori oedd hwyluso myfyrdod beirniadol cydweithredol ar addasrwydd ac ymarferoldeb pob un o'r tri senario hyn. Nodwyd rhanddeiliaid o'r llifau gwaith blaenorol er mwyn cynnwys amrywiaeth o safbwyntiau.

Roedd un deg tri o gyfranogwyr wedi cymryd rhan. Er mwyn annog ymgysylltiad, cynhaliwyd pedwar cyfarfod fideo, a phob un yn cynnwys saith cyfranogwr ar y mwyaf, gan gynnwys hyd at dri aelod o'r tîm ymchwil. Cafodd pob senario ei ddiwygio ar sail yr adborth o'r pedwar cyfarfod.

Er mwyn cyflwyno'r canfyddiadau, gwelsom ei bod hi'n haws cyfuno'r ymatebion i'r cyfweiliadau a'r arolwg ar-lein ac adborth o'r ymgynghoriad.

4.0 Teuluoedd sy'n gwahanu

4.1 Strwythurau teuluol

Mae'n werth nodi o'r cychwyn cyntaf bod data'r cyfweiliadau wedi datgelu amrywiaeth y strwythurau teuluol. Mae amrywiaeth o'r fath yn gysylltiedig â'r newid ym mhatrymau teuluoedd dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf, gan gynnwys y gostyngiad yn y cyfraddau priodi a chyflwyno partneriaethau sifil, cyfraddau uwch o gyd-fyw a chynnydd mewn ysgariad (OECD, 2011). Yn wir, mae'r term 'teuluoedd sy'n gwahanu' braidd yn gamarweiniol. Mewn gwirionedd, mae'n bosibl na fu'r rhieni erioed mewn cydberthynas â'i gilydd nac erioed wedi cyd-fyw. Er enghraifft:

pâr ifanc, gwnaeth hi feichiogi ar ddê neu 'ffling' dros benwythnos neu rhywbeth tebyg. Roedden nhw'n ifanc, 19 a 21... dyma ddau berson ifanc rhwystredig, nad oeddent yn gallu gweld llygad yn lygad, hynny yw, doedden nhw ddim yn gallu gwrandao ar ei gilydd er mwyn dweud, mewn gwirionedd, mae angen i ni roi hyn o'r neilltu er lles y plentyn (*Kelly, sefydliad elusennol*)

Mae plant yn byw mewn amrywiaeth o strwythurau teuluol a all gynnwys aelodau o'r teulu estynedig fel neiniau a theidiau, yn ogystal â theuluoedd ailgyfansoddedig yn cynnwys llysrieni a brodyr a chwiorydd ychwanegol. O fewn y strwythurau hyn, mae'r cydberthnasau rhwng rhieni a'u dulliau gwahanol o rianta yn adlewyrchu'r heriau amrywiol y mae pob strwythur teuluol yn eu hwynebu (TNS BMRB, 2016).

Er bod plant fel arfer yn byw gyda'u mam, efallai y bydd rhai yn byw gyda'u tad a bydd rhai yn cael eu gwahanu, gyda rhai o'r plant yn byw gyda'r fam a rhai gyda'u tad. O fewn y strwythurau hyn, gall y plant

gael eu symud rhwng y rhieni neu efallai bod gan mam nifer o bartneriaid neu fod gan dad nifer o bartneriaid sydd wedi symud i mewn, neu efallai nad oes perthynas rhy dda rhwng y fam a'r plentyn neu rhwng y tad a'r plentyn, a bod llawer o broblemau ymlyniad, neu efallai eu bod yn ganlyniad trawma, ac mae'r trawma y mae'r plentyn yn ei gyflwyno yn dueddol o fod yn gysylltiedig â'r cydberthnasau (*Michelle, tîm yr awdurdod lleol*)

Yn ei chyfweiliad, dywedodd Jessica (*sefydliad elusennol*) fod penderfyniadau'r llys yn aml yn drysu plant, ond na fydd gan blant o dan tua 11 oed yr hyder i ofyn cwestiynau am y broses. Wrth fabwysiadu Mesur Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2010, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae Cymru wedi ymrwymo i roi llais plant wrth wraidd pob

penderfyniad sy'n effeithio arnynt. O dan Erthygl 12 y Confensiwn, mae gan blant yr hawl i fynegi eu barn am y penderfyniadau barnwrol a gweinyddol a wneir amdanynt, yn unol â'u hoedran a'u dealltwriaeth, a hawl i'r farn hon gael ei hystyried. Dangosodd canfyddiadau'r grŵp ffocws pobl ifanc fod plant a phobl ifanc yn aml yn teimlo'n rhwystredig pan fydd pobl nad ydynt yn eu hadnabod yn gwneud penderfyniadau am eu bywydau.

Yn gyffredinol, dywedodd y grŵp y gallai cynnwys llysoedd yn y broses or-symleiddio a/neu waethygu'r problemau rhwng y rhieni. Nodwyd hefyd y gallai un rhiant ddefnyddio'r bygythiad o fynd i'r llys er mwyn arfer pŵer dros y llall. Er bod y grŵp yn cydnabod bod angen cynnwys llysoedd pan fydd materion diogelu, mewn achosion lle nad oes materion o'r fath, tynnodd y grŵp sylw at ddwy ffynhonnell o gymorth: cyfryngu ac ysgolion. O ran cyfryngu, roedd y grŵp o'r farn ei fod yn gyfrwng delfrydol i atal achosion rhag cyrraedd y llys. Gwnaethant awgrymu y dylai'r ddarpariaeth bresennol gael ei hystyried er mwyn cynnwys plant a phobl ifanc fel mater o drefn. Mae hyn yn adlewyrchu bod diffyg gwasanaethau cyfryngu sy'n cynnwys plant a phobl ifanc ar hyn o bryd (*Lucy, sefydliad elusenol*). Yn nhermau ysgolion, teimlai'r grŵp y dylai mwy o wybodaeth fod ar gael mewn ysgolion. Roedd hyn yn adlewyrchu nad oeddent yn siŵr ble y gall plant a phobl gael gafael ar gymorth. Argymhellwyd darparu taflenni gwybodaeth mewn ysgolion fel ffordd o roi gwybod i blant a phobl ifanc pa wasanaethau sydd ar gael iddynt. Yn olaf, pan ofynnwyd ynghylch y Gynghrair Cymorth i Deuluoedd sy'n Gwahanu, tynnodd y grŵp sylw at yr angen am y canlynol:

1. *Ymwybyddiaeth o'r brand* gyda'r gynghrair wedi'i hysbysebu ar gyfryngau cymdeithasol, ar y rhyngwrdd ac mewn ysgolion.
2. *Siop un stop* gyda chymorth ar bob ffurf ar gael mewn un man er mwyn ei gwneud 'mor hawdd â phosibl' cael mynediad ato.
3. *Cymorth wedi'i deilwra* sy'n cydnabod bod pob teulu yn unigryw.
4. *Cymorth parhaus* fel bod teuluoedd yn cael eu cefnogi cyn, yn ystod ac ar ôl i'r trefniadau gael eu gwneud.
5. *Eiriolaeth* i blant a phobl ifanc er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

4.2 Pam y mae rhieni yn mynd i'r llys?

Anghytuno ynghylch trefniadau plant (trefniadau byw a chyswllt) yw'r ffynhonnell fwyaf o anghydfod. Cyflwynwyd darlun cymhleth lle gallai problemau gyda'r trefniadau beri i anawsterau yn y gydberthynas barhau, neu lle gallai'r trefniadau fod yn gyfrwng er mwyn cael buddion ariannol neu fuddion tai. Soniodd yr ymatebwyr am rieni yn anghytuno am lefel y cyswllt a ph'un a oeddent o'r farn bod y rhaniad yn ddigonol ac yn deg,

Doedd ganddyn nhw ddim cyswllt 50:50 a dyna beth roedd dad ei eisiau, a doedd e ddim yn gallu deall pam na chafodd hynny, a byddai'n gwthio ac yn gwthio ac yn gwthio ac yn gwthio ac yn gwthio drwy'r amser. Ac yn y pen draw – yr unig beth oedd yn bwysig oedd ei hawl ef, ac rwy'n meddwl bod anghenion y plant wedi cael eu gwthio i'r naill ochr i raddau (*Christopher, sefydliad elusennol*)

Roedd syniadau am degwch yn cynnwys y costau yr aethpwyd iddynt wrth gynnal cyswllt. Roedd hyn yn arbennig o wir pan nad oedd y rhieni'n byw yn yr un ardal leol. Yn yr achosion hyn, mae'n bosibl y bydd y rhieni'n anghytuno pwy ddylai deithio neu dalu'r costau teithio wrth gynnal trefniadau cyswllt (*Jennifer, gwasanaeth statudol*). Felly, mae'n bosibl y bydd rhiant yn ceisio cael dyfarniad llys er mwyn mynnu rhaniad mwy cyfartal lle mae'r ddau riant yn rhannu'r costau neu'r teithio. Lle bydd y rhieni'n defnyddio canolfannau cyswllt, dim ond un rhiant fydd yn talu a gall hyn hefyd wneud y gwrthdaro'n waeth.

Daeth anawsterau ynghylch rhianta ar y cyd i'r amlwg gyda rhieni preswyl a rhieni amhreswyl naill ai'n ceisio annog plant i beidio â chynnal cydberthynas â'r rhiant arall neu fynd ati'n rhagweithiol i atal y plentyn rhag gweld y rhiant arall.

Efallai bod y tad i fod i gael cyswllt, ac yna mae'r fam yn dweud 'O na, wel, nes i ddim anfon y plant am eu bod yn sâl.' Ac rydych chi'n meddwl, oedden nhw'n sâl go iawn, neu oeddet ti ddim eisiau iddyn nhw fynd? Ac yna, mae'n nhw'n dweud "O, wel, pan fyddan nhw wedi bod rhywle, maen nhw bob amser yn ddrwg pan fyddan nhw'n dod nôl.' Ac hefyd, maent wastad - neu 'daethon nhw nôl â chlais.' Maen nhw bob amser yn chwilio am reswm pam nad oes rhaid iddynt gael cyswllt (*Jessica, sefydliad elusennol*)

Nid oedd anawsterau yn ymwneud â rhianta ar y cyd yn benodol i'r rhiant preswyl. Nodwyd nad oedd rhieni amhreswyl yn dychwelyd plant ar ôl ymweliadau cyswllt weithiau. Pan fydd y rhiant amhreswyl yn rhannu cyfrifoldeb rhieni, gall y rhiant preswyl deimlo'n ddi-rym i fynd i nôl y plentyn am fod yr heddlu'n dweud na allant ymyrryd. Felly, gall y rhiant preswyl deimlo nad oes unrhyw ddewis ond mynd â'r achos i'r llys.

Mewn achosion eraill, gellir defnyddio problemau yn ymwneud â chyswllt fel ffordd o gadw tai neu i gael buddiant ariannol.

Yn aml, bydd achosion o'r fath yn ymddangos eu bod yn ymwneud â'r plentyn, pan fyddant yn cyrraedd y llys, ond mewn gwirionedd, maen nhw'n ymwneud â'r tŷ. Oherwydd mae canfyddiad y bydd y rhiant sydd â'r plentyn, yn cael cadw'r tŷ. Felly, mae'r sefyllfa yn flêr ac yn anodd,

ac unwaith eto, mae disgwyliadau afrealistig ynghylch yr hyn y gall y llys ei wneud (*Jennifer, gwasanaeth statudol*).

Roedd y syniad o 'ddisgwyliadau afrealistig' yn thema gyson drwy'r cyfweiliadau. Dywedodd ymatebwyr fod rhieni yn aml yn credu'n anghywir y byddant yn 'ennill' drwy fynd i'r llys, gan awgrymu felly y bydd eu cyn-bartner yn colli. Heriodd yr ymatebwyr y syniad hwn.

Rwyf wedi gweithio gyda sawl cwpl sy'n dweud wrtha i "dywedodd fy nghyfreithiwr ein bod yn mynd i ennill yr achos hwn" neu "dywedodd fy margyfreithiwr ein bod ni..." Nid ennill yw'r nod. Does neb yn ennill yn y sefyllfa honno, dim ond colli, a'r rhai sy'n colli fwyaf yw'r plant (*Christopher, sefydliad elusenol*)

Mae'r sefyllfa'n waeth fyth pan na fydd gan y rhieni y sgiliau i ddatrys problemau a lle gall cynnwys y llys arwain at ddibyniaeth, gyda rhai rhieni'n dychwelyd i'r llys bob tro y bydd problem yn codi.

Mae pobl yn dod i'r llys gan ddweud, 'Wel, dywedodd y gallwn i gael hyn ac yna fe wnaeth hi fel arall, ac roedd gennym gytundeb, ond fe newidiodd hi'r peth yn ôl o ddydd Sadwrn i ddydd Sul, felly rwyf eisiau gorchymyn i ddweud wrthi'n union pryd y mae'r cyswllt', ac maen nhw'n gorlwytho'r system (*Jennifer, gwasanaeth statudol*).

Awgrymwyd y gall rhieni deimlo y bydd y llys teulu yn amddiffyn eu hawliau, ac y bydd y barnwr yn sicrhau bod yn rhaid i'w barn gael ei chefnogi. Ymhlith ymatebwyr, roedd teimlad y dylid herio'r disgwyliadau afrealistig hyn. Yn eu barn nhw, pe bai'r rhieni'n gyfarwydd â realiti mynd i'r llys, y byddent yn llai tebygol o ddilyn y llwybr hwn. Fel y disgrifia un cyfryngwr,

Bydd cynifer o bobl yn dweud, 'Dwi eisiau'r ffurflen, dyna'r cyfan, dwi eisiau'r ffurflen', ond yna, pan fydd ganddynt awr i drafod y sefyllfa, 'lawn, am beth rydych chi eisiau'r ffurflen, beth rydych chi eisiau i'r llys ei wneud?' neu 'Beth rydych chi'n ei ddisgwyl gan y barnwr; pam rydych chi'n meddwl bod y barnwr yn adnabod eich plentyn yn well na chi?' Chi'n gwybod, 'Beth ydych chi'n meddwl fydd yn digwydd os na fyddwch chi'n hoffi'r hyn y bydd y barnwr yn ei ddweud wrthy?' a dyna'r trobwynt i lawer o bobl; pan fyddaf yn dweud hynny (*Nicola, sefydliad preifat*)

Roedd teimlad bod rhieni yn fwy parod i wneud cais i'r llys na cheisio gwasanaethau cymorth cydberthnasau. Yn ôl yr ymatebwyr, mae ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a ddarperir a'r teimlad nad yw'n dderbyniol i gael cymorth yn rhwystrau sy'n atal pobl rhag defnyddio gwasanaethau cymorth. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau Pote et al. (2019) sef bod ymgysylltiad rhieni yn gysylltiedig â gwelededd y gwasanaethau a bod gan y rhiant ganfyddiadau cadarnhaol am dderbyn cymorth a chefnogaeth. Mae hyn yn ddiddorol am ei bod yn ymddangos bod gwelededd y ddarpariaeth bresennol yn her benodol i weithwyr proffesiynol a rhieni. Disgrifiodd Michael (*sefydliad elusennol*) yr angen i hyfforddi staff a chodi ymwybyddiaeth o ddarpariaeth bresennol fel eu bod yn gallu cyfeirio rhieni. Cyfeiriwyd sawl gwaith at Dewis Cymru, sef porthol gwybodaeth a grëwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), 2014. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yn ansicr am y broses lle caiff gwasanaethau eu cynnwys ac i ba raddau y mae Dewis Cymru yn cynnwys mesurau sicrhau ansawdd.

Hyd yn oed lle roedd y gwasanaethau a ddarperir yn weladwy, mae ofn ar rai rhieni y bydd gofyn am help yn adlewyrchu'n wael arnynt. Mae'n bosibl y bydd rhai rhieni'n teimlo cywilydd neu'n teimlo'n euog bod eu perthynas wedi chwalu neu'n ofni y bydd pobl yn ffurfio barn negyddol amdanynt os bydd angen help arnynt. Gall teimladau o'r fath gael eu dwysáu gan rai grwpiau lleiafrifoedd ethnig am eu bod yn wynebu pwysau diwylliannol rhag gwahanu (Connors and Thomas, 2014). Er mwyn gwrthbwyso ofnau o'r fath, soniodd un ymatebwr am yr angen i gynnig darpariaeth o fewn gwasanaethau cyffredinol.

Mae llawer o deuluoedd yn chwalu a rhieni'n gwahanu, felly roeddem o'r farn ei bod yn bwysig sicrhau bod y cymorth ar gael yn agored, mynediad agored ac mor eang â phosibl, oherwydd doedden ni ddim eisiau'r stigma a fyddai'n gysylltiedig â rhywbeth sydd ond ar gael i fath penodol o deulu am ein bod yn gwybod bod hyn yn effeithio ar bawb mewn gwirionedd (*Kelly, tîm awdurdod lleol*)

Mae'r farn hon yn cynnig mabwysiadu dull cyffredinol sy'n cwmpasu holl boblogaeth Cymru ac yn hyrwyddo'r syniad ei bod yn dderbyniol defnyddio gwasanaethau cymorth cydberthnasau.

4.2.1 Effaith COVID-19

Er nad oedd yr astudiaeth wedi'i hanelu at ystyried effaith COVID-19 ar ddatblygiad y Gynghrair Cymorth i Deuluoedd sy'n Gwahanu, gofynnwyd i'r ymatebwyr beth oedd yr effaith ar deuluoedd, yn eu barn nhw. Yn gyffredinol, teimlai'r ymatebwyr fod COVID-19 yn cael effaith ddeublyg; roedd yn gwaethygu'r anghytundebau presennol ac yn cynyddu nifer y rheini sy'n gwahanu. Ar adeg y cyfweiliad hwn, roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i gyfnod estynedig o gyfyngiadau symud lle roedd teuluoedd wedi'u cyfyngu i'w cartrefi.

Yn y cyd-destun hwn, mae cydberthynas yn gwahanu'n arafach am fod y broses o wahanu wedi'i chyfyngu gan y gallu i adael yn ffisegol ac argaeledd y gwasanaethau (Lebrow, 2020). I'r rhai a wahanodd cyn y cyfyngiadau symud, disgrifiodd Heather (*sefydliad elusennol*) fod COVID-19 a'r mesurau cadw pellter cymdeithasol yn cael eu defnyddio fel esgus i atal y plentyn rhag gweld y rhiant arall. Dros y tymor hwy, roedd yr ymatebwyr yn disgwyl y byddai'r cynnydd mewn anawsterau ariannol mewn teuluoedd oherwydd colli cyflogaeth,

os yw'r cydberthynas mewn trafferth eisoes ac rydych yn ychwanegu gorbryder yn gysylltiedig â COVID-19, pobl yn colli swyddi, rwy'n credu y bydd angen cymorth ar bobl na fyddent fel arfer yn defnyddio gwasanaethau cymorth, ac yna cyn gynted ag y bydd y bobl hynny nad ydynt wedi bod yn defnyddio gwasanaethau yn gwneud y cysylltiad hwnnw, mae'r cyfan yn mynd i ddod allan. Yn bendant, bydd galw am y gwasanaethau (*David, sefydliad elusennol*)

Roedd y cynnydd disgwylledig hwn mewn galw hefyd yn gysylltiedig ag ansicrwydd ynghylch y ffordd y byddai'r gwasanaethau'n gweithredu pan fyddai'r cyfyngiadau symud yn llacio ond byddai'r mesurau cadw pellter cymdeithasol yn parhau,

Pa fath o gymorth fydd ar gael? Mae gennych fesurau cadw pellter cymdeithasol, felly sut allwch chi gefnogi teulu o ddwy fetr i ffwrdd? Pa rwystrau y mae hynny'n eu cyflwyno? Os bydd rhaid gwisgo masg wyneb, menyg, beth y mae hynny'n mynd i'w wneud hefyd? Mae llawer o bethau i'w hystyried (*Christopher, sefydliad elusennol*)

Gan adlewyrchu'r newid i weithio o bell, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y byddent yn parhau i ddefnyddio galwadau fideo i ddarparu'r gwasanaeth yn y dyfodol. Ystyriwyd bod hyn yn cynnig manteision penodol wrth gadw cysylltiad â rhieni sy'n gyndyn o ymgysylltu â'r gwasanaethau yn bersonol. Roedd hefyd yn ei gwneud yn bosibl i ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd daearyddol mawr.

Roedd gennym ffrwd fain o deuluoedd yn defnyddio'r cyfleuster hwn ar y dechrau'n dweud 'o na, rydyn ni'n iawn, dydyn ni ddim eisiau dim byd' ond nawr rydyn ni'r un mor brysur ag oedden ni cyn Covid. Rydyn ni wedi sylweddoli y gallwn ni gael llawer o gyfarfodydd Zoom gan ei bod yn golygu nad oes rhaid i ni deithio, felly mae wedi arbed llawer o amser... felly o hyn ymlaen, os gallwn ni barhau i ddarparu gwasanaeth o ryw fath drwy Zoom, yna mae hynny'n wych (*Karen, sefydliad elusennol*)

Fodd bynnag, roedd cytundeb eang nad oedd galwadau fideo yn addas i bob teulu. Roedd y rhain yn cynnwys teuluoedd yr ystyrir eu bod yn agored i niwed, y rhai lle nad oedd lle neu gyfle i gael galwad breifat a'r rhai nad oes ganddynt fynediad at dechnoleg.

4.3 Sut mae rhieni yn cael gafael ar wasanaethau?

Pan ofynnwyd sut y mae rhieni'n cael gafael ar y gwasanaethau hyn, daeth tair prif thema i'r amlwg. Yn gyntaf, gallai'r llys teulu gyfeirio rhieni at gymorth penodol, er y nodwyd ei bod yn bosibl na fydd gan farnwyr ac ynadon wybodaeth gyfredol am y gwasanaethau a ddarperir a dim ond yn gymharol ddiweddar y mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi wedi mabwysiadu polisi cyfeirio. Er hyn, gall gwybod am y gwasanaethau a ddarperir fod yn gymhleth,

gan fod y gwasanaethau'n newid mor gyflym, gan ddibynnu ar gyllid. Efallai y bydd cyllid am 12 mis, felly mae'r gwasanaeth yno ac yna'n sydyn mae'n diflannu. Dros Gymru a'r DU, mae gwasanaethau yn ymddangos ac yna'n diflannu ac yn ymddangos ac yn diflannu. Felly, rwy'n credu y byddem yn elwa ar wella cydberthnasau â'r llysoedd (*David, sefydliad elusenol*)

O ganlyniad, mae'r gwasanaethau a ddarperir yn amrywio ledled Cymru. Siaradodd ymatebwyr am loteri cod post, gyda'r gwasanaethau a ddarperir yn dibynnu ble mae'r teuluoedd yn byw. Soniodd sawl ymatebwr am 'botiau gwahanol o arian i wneud pethau gwahanol mewn awdurdodau lleol gwahanol' (*Laura, sefydliad elusenol*) Hyd yn oed lle cafodd rhieni eu hatgyfeirio at wasanaethau, roedd yn rhaid iddynt fod yn barod ac yn fodlon ymgysylltu â gwasanaethau. At hyn, roedd yn rhaid i rieni allu blaenoriaethu llesiant eu plant dros eu teimladau eu hunain er mwyn ystyried beth oedd orau i'r plentyn.

Dyma'r her - sut rydych chi'n cael pobl i'r pwynt lle maen nhw'n sylweddoli cymaint y mae eu hymddygiad yn effeithio ar eu plant (*Lisa, sefydliad elusenol*)

Yn ail, bydd rhai rhieni'n hunangyfeirio yn anuniongyrchol drwy gysylltu â sefydliadau fel Cyngor ar Bopeth neu Wasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yr awdurdod lleol. Yn yr achosion hyn, byddai rhieni'n cael eu cyfeirio neu eu hatgyfeirio at wasanaethau eraill. Gallai cleifion hefyd hunangyfeirio at wasanaethau penodol. Gan gefnogi canfyddiadau'r Adran Gwaith a Phensiynau (2019), nodwyd y byddai rhieni'n aml yn chwilio am wybodaeth am gymorth ar Google i weld pa wasanaethau sydd ar gael. Roedd cyfweiliadau â rheini o aelwydydd incwm isel a gweithwyr cymorth i deuluoedd yn dangos bod rhieni yn fwy tebygol o ddefnyddio Google na throi at wefannau sefydledig i gael cyngor ar wrthdaro rhwng rhieni, ond eu bod yn ei chael hi'n anodd diffinio termau chwilio yn glir (yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2019). Roedd hyn yn golygu nad oedd

rhieni bob amser yn dod o hyd i wybodaeth berthnasol. Yn ôl Jennifer (*Gwasanaeth statudol*), mae anawsterau wrth ddiffinio ffiniau wrth chwilio yn golygu bod rhieni yn cael gwybodaeth ragfarnllyd neu o ansawdd gwael,

y Cyfarfodydd Cyfryngu, Gwybodaeth ac Asesu [MIAM] afiach, twyllodrus y gellir eu cynnal ar-lein dim ond er mwyn cael osgoi'r broses go iawn a goresgyn y rhwystr hwnnw, a byddwch yn cael eich gorlethu â chyngor sy'n gwrthdaro gan grwpiau eirioli gwahanol a charfannau pwysu a phopeth gan y dudalen Facebook 'CAFCASS are corrupt' - mae'r cyfan yno.

Yn olaf, gall y gwasanaethau ddod i adnabod y rhieni yn anuniongyrchol wrth iddynt gymryd rhan mewn ffurfiau eraill o gymorth, neu lle bydd ymddygiad y plentyn yn tynnu sylw staff addysgol neu ofal cymdeithasol ar wrthdaro rhwng rhieni. Er enghraifft:

Mae ymwelwyr iechyd yn mynd i mewn ac yn gwneud llawer o'r hyn rydyn ni'n ei alw'n 'ymweliadau gwrando' ac yn siarad â phobl pan fydd y plant gyda nhw, a gallan nhw ddysgu llawer iawn am yr hyn sy'n digwydd yn y teulu hyd yn oed lle na chaiff pethau eu dweud yn amlwg, drwy iaith y corff a phethau felly, ac felly gallant weld pan fydd rhywfaint o wrthdaro (*Joe, cymorth statudol*)

Yn yr achosion hyn, gall rhieni gael eu cyfeirio neu eu hatgyfeirio at wasanaethau cymorth a chefnogaeth eraill.

4.3.1 Diwallu anghenion amrywiol teuluoedd

Canfu Barrett (2008) fod tri phrif grŵp sy'n llai tebygol o geisio cymorth cydberthnasau: y rhai sy'n gwrthod gwasanaethau, y rhai sydd wedi'u tangynrychioli a'r anweladwy. Yn gyntaf, mae rhai rhieni yn gwrthod gwasanaethau am nad ydynt yn barod i ymgysylltu neu am eu bod yn ddall i'r broblem (Barrett, 2008). Mae'r grŵp hwn yn cynnwys teuluoedd sy'n cael anawsterau hirdymor, y rhai lle ceir cam-drin domestig neu'r rhai sy'n camddefnyddio sylweddau. Mae gan y grŵp hwn ystod eang o anghenion gan gynnwys lle bydd angen gwasanaethau arbenigol. Yn ail, gall grwpiau wedi'u tangynrychioli gael eu disgrifio fel rhieni sydd wedi'u hymyleiddio, sydd dan anfantaes economaidd neu wedi'u heithrio'n gymdeithasol gan gynnwys rhieni BAME (pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig), rhieni ag anableddau dysgu a rhieni sy'n Deithwyr. Mae'r Gweithgor Cyfraith Breifat (2020:20) wedi mynegi pryder nad yw dogfennau llys, cyngor i ymgyfreithwyr na'r rhaglen trefniadau plant yn ddigon hygyrch i rai grwpiau o rieni. Mae dogfennau o'r fath wedi'u llunio gan dybio y bydd yr ymgyfreithwyr yn meddu ar lefel benodol o addysg a llythrennedd. Er enghraifft, disgrifiodd Sarah (*sefydliad elusenol*) yr amryw heriau a gyflwynir gan llysoedd cyfraith breifat i rieni ag anableddau dysgu.

Yn aml mewn sefyllfa lle ceir tyndra, bydd pobl ag anabledd dysgu yn dweud ydw, rwy wedi deall, am eu bod yn credu y dylent wneud hynny, ac am fod y stigma sy'n gysylltiedig â pheidio â deall yn eithaf sylweddol... byddai'n bwysig cael gwybodaeth hawdd ei darllen... sy'n galluogi gweithiwr cymorth, nad yw efallai wedi'i hyfforddi yn y system gyfreithiol, neu nad yw wedi'i hyfforddi ym mha bynnag wasanaeth sy'n cael ei gynnig, i gefnogi'r person gan ddefnyddio pwyntiau allweddol hefyd. Yn aml, gwelwn fod gan y bobl sy'n cefnogi pobl anabledd dysgu eu hunain; mae'n swydd â thâl isel, ac mae [eu] lefelau llythrennedd hwy yn isel iawn hefyd.

Fodd bynnag, nododd Sarah fod y ddarpariaeth yn llawer gwell i'r grŵp hwn yn y 'camau cyn-llys' hynny, a bod y gwasanaethau cyfryngu a chwnsela yn gallu teilwra'r cymorth ar lefel a chyflymder addas yn well.

Yn drydydd, canfuwyd bod rhieni y nodir eu bod yn 'anweladwy' yn llai tebygol o geisio cymorth cydberthnasau (Barrett, 2008). Mae'r rhain yn cynnwys tadau, rhieni hoyw, lesbiaidd, deurywiol a thrawsryweddol, rhieni â phroblemau iechyd meddwl a theuluoedd ag anghenion sydd o dan drothwyon gwasanaethau. Gall yr anwelededd hwn fod yn seiliedig ar ddulliau o ddarparu ar sail rhywedd. Er enghraifft, mae tadau yn aml yn gyndyn o geisio cymorth am eu bod yn ystyried bod y gwasanaethau wedi'u cyfeirio ar y fam (Maxwell et al., 2012). Pan ofynnwyd i ba raddau yr oedd sefydliadau'n addasu eu gwasanaethau ar gyfer anghenion amrywiol teuluoedd, cafwyd crynodeb o'r farn gyffredin ymhlith yr ymatebwyr gan Gemma (*awdurdod lleol*),

Yn draddodiadol, dwi'n credu ni waeth pa wasanaeth rydym yn ei gynnig, mae pob un o'r cymunedau hynny'n cael eu tangynrychioli'n sylweddol... felly mae'n bosibl y bydd pobl yn dewis troi at y darpariaethau arbenigol yn hytrach na chael eu cyfeirio at rywbeth mwy prif ffrwd efallai, os hoffech chi, ond nid wyf yn ymwybodol o unrhyw addasiadau, yn niffyg term mwy addas, rydym wedi'u gwneud i'r ffordd y caiff rhywbeth ei ddarparu am fod rhywun yn ddu neu'n hoyw neu'n byw gyda rhywun o'r un rhyw... nid ydym wedi addasu'r deunyddiau mewn unrhyw ffordd.

Fel y mae'r dyfyniad uchod yn ei ddangos, roedd rhai ymatebwyr yn tybio y byddai'n well gan rieni geisio cymorth gan grwpiau arbenigol. Prin oedd y dystiolaeth i gefnogi'r syniad hwn, ond gan fod cyn lleied o ymatebwyr o grwpiau arbenigol, mae'n bosibl nad yw hyn yn gynrychioliadol ar lefel ehangach. Nid oedd ymatebwyr eraill yn gweld angen i deilwra'r cymorth a gynigir ganddynt, gan ddweud nad oedd eu darpariaeth yn wahaniaethol ac wedi'i anelu at bob rhiant. Roedd rhywfaint o dystiolaeth bod sefydliadau prif ffrwd yn cefnogi rhieni â nodweddion gwarchodedig, er bod rhai grwpiau

wedi'u tangynrychioli, fel y nodwyd. Disgrifiodd lleiafrif o ymatebwyr amrywiaeth o ddulliau a fabwysiadir ganddynt i gefnogi teuluoedd ag anghenion amrywiol. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd asesiadau o anghenion rhagarweiniol fel bod y gwasanaeth yn gallu sicrhau y bod yr anghenion yn cael eu cymhwyso,

[mae gennym] gyfleusterau cymorth i rieni ag anableddau penodol nad ydynt yn rhai ffisegol yn unig, ac mae angen mynd i'r afael â nhw ac ymdopi â nhw a darparu. [Rydym yn cynnal] ymweliad cyn-asesu, ni... chaiff sesiwn ei rhestru nes i bob rhiant gael ei asesu (*Michael, sefydliad elusennol*)

Lle roedd ymatebwyr wedi nodi addasiadau penodol, roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â sicrhau bod adeiladau'n hygyrch. Cyfeiriodd ambell ymatebwr at laith Arwyddion Prydain neu ddarpariaeth darllen gwefusau.

4.3.1 Anghenion ieithyddol

O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n rhaid i sefydliadau sector cyhoeddus gynnig gwasanaethau Cymraeg; gall elusennau a busnesau wneud hynny ar sail wirfoddol. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn darparu gwybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg. Roedd y rhan fwyaf o'r sefydliadau hefyd yn gallu darparu staff Cymraeg eu hiaith pe gwneir cais am hynny. Dywedodd ymatebwyr fod rhieni yn fwy cymwys a chyfforddus yn defnyddio gwasanaethau a ddarperir yn eu hiaith gyntaf. Serch hyn, yn achos rhai rhaglenni arbenigol megis cynadleddau grwpiau teulu ac arferion adferol, ymddengys fod diffyg darpariaeth Gymraeg ledled Cymru,

hyd yn oed yn y Gogledd, ac mewn rhai Cymunedau yn y fro Gymraeg, rydym yn gwybod bod arbenigwyr, gweithwyr proffesiynol di-Gymraeg, ac mae hynny'n anodd wedyn i deuluoedd yn y cymunedau hynny (*Sarah, sefydliad elusennol*)

Nodwyd arwyddocâd y cyswllt cyntaf, a bod rhai rhieni, ar ôl cyfarfod ag un ymarferwr di-Gymraeg, yn gyndyn i weld rhywun newydd, hyd yn oed os yw'r ymarferwr newydd yn siaradwr Cymraeg. O ran ieithoedd eraill, dywedodd nifer o ymatebwyr eu bod wedi defnyddio cyfieithwyr ar y pryd gyfer amrywiaeth o ieithoedd, gan gynnwys Tsieinëeg, Pwyleg ac Wrddw. Roedd amrywiaeth i'w gweld o ran yr adnoddau a oedd gan sefydliadau i ddefnyddio cyfieithwyr ar y pryd. Nid yw'n synod nad oedd gan sefydliadau elusennol llai yr adnoddau i dalu am y ddarpariaeth hon yn aml, a'u bod, yn hytrach, yn dibynnu ar sgiliau iaith staff a gwirfoddolwyr. Er nad oedd hyn yn gyffredin, roedd rhai sefydliadau'n mynd ati i chwilio am wirfoddolwyr o gymunedau lleol er mwyn sicrhau bod diwylliannau ac ieithoedd lleol yn cael eu cynnwys yn y ddarpariaeth. Nid oedd yn glir pa

mor addas ydoedd i ddefnyddio darpariaeth cyfieithu ar y pryd anffurfiol o'r fath, yn enwedig wrth i Craig egluro,

mae gofyniad newydd o 1 Ebrill sy'n pennu bod yn rhaid i'r Datganiad Gwirionedd fod yn iaith yr ymgeisydd ac ni lwyddom i roi hyn ar waith, roeddem ar fin dweud na allwn wneud hynny am ein bod ni'n methu ag addo ein bod wedi egluro'r Datganiad o Wirionedd i'r ymgeisydd yn glir yn ei iaith ei hun (*Craig, sefydliad elusenol*)

Mae hyn yn tynnu sylw at broblemau posibl gyda defnyddio iaith arbenigol a therminoleg cyfreithiol yn y llysoedd.

5.0 Pa wasanaethau sydd ar gael i gefnogi rhieni sy'n gwahanu?

5.1 Darparu Staff

Dangosodd y canfyddiadau fod y rhieni yr oedd eu cydberthynas yn chwalu yn aml yn wynebu anawsterau eraill fel problemau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a phroblemau rhianta. Roedd hyn yn ei gwneud yn anodd datblethu gwasanaethau sy'n ceisio mynd i'r afael â materion ehangach, a allai olygu cynnwys yr awdurdod lleol ac achosion cyfraith gyhoeddus, o'r rhai sy'n ceisio datrys anawsterau yn y cydberthynas a chyfeirio rhieni oddi wrth trafodion cyfraith breifat. Yn ymarferol, roedd gwasanaethau'n gweithio gydag amryw o faterion, gyda gwrthdaro o fewn y cydberthynas yn nodwedd amlwg o anawsterau rhieni,

Felly, o ran y gwasanaethau sydd gen i ar hyn o bryd, byddwn yn dweud y byddai bron bob un ohonynt yn nodi materion a phroblemau yn y gydberthynas (*Lisa, sefydliad elusennol*).

Dangosodd y canfyddiadau fod amrywiaeth o wasanaethau gwahanol ar gael. Roedd teuluoedd a oedd yn wynebu materion ehangach yn dueddol o gael eu cyfeirio at gymorth i deuluoedd, tra bod cymorth sydd wedi'i dargedu'n benodol at gyfeirio rhieni o'r llysoedd yn cynnwys dau brif lwybr: rhaglenni rhianta a/neu gyfryngu. Yn erbyn y cyddestun hwn, ystyriwyd bod cyflwyno cynghrair i gefnogi rhieni sy'n gwahanu yn ffordd o ddod â'r gwasanaethau gwahanol hyn at ei gilydd mewn partneriaeth neu 'siop un stop' lle y gellid cyfeirio rhieni at wasanaethau gwahanol.

Yn fy marn i, gallai'r gynghrair fod yn bwerus iawn a bod mewn sefyllfa gryf iawn, ac rwy'n credu nad yw hynny bob amser yn wir am y gwasanaethau unigol o reidrwydd, ac weithiau, nid yw hynny hyd yn oed yn wir am awdurdodau lleol unigol. Felly, rwy'n credu y byddai ffurfio cynghrair lle gallai sefydliadau gwahanol weithio mewn partneriaeth i gyfleu un neges, ymateb cydlynol... rwy'n credu bod angen mawr am hynny (*David, sefydliad elusennol*)

Pwysleisiwyd yr angen am neges gyson gan y gwasanaethau i gyd. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol yn achos gwasanaethau sy'n hyrwyddo barn un rhiant yn hytrach na chynnig dull gweithredu sy'n seiliedig ar y teulu cyfan.

5.1.1 Cefnogaeth perthnasau

Nododd sawl ymatebwr fod awdurdodau lleol yn cynnig dau wasanaeth cymorth i deuluoedd ar hyn o bryd: Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd a'r Tîm o Amgylch y Teulu. Sefydlwyd Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS) o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ac roeddent wedi'u hanelu at blant a rhieni â phroblemau cyffuriau neu alcohol. Fodd bynnag, yn fwy diweddar, mae Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd wedi ymestyn eu gwasanaeth amlddisgyblaeth, amlasiantaeth i gynnwys gwrthdaro rhyngbersonol a chamdriniaeth (IPCA), sy'n derm y mae Rees, Casserly a Maxwell (2020) yn ei ddefnyddio i drafod yr amrywiaeth gyfan o wrthdaro o fewn cydberthynas. Sefydlwyd y Tîm o Amgylch y Teulu o dan Raglen Teuluoedd yn Gyntaf (2017), gyda'r nod o gefnogi plant a theuluoedd drwy gymorth ymyrraeth gynnar amlasiantaeth yn seiliedig ar gryfderau i'r teulu cyfan. Fel rhan o'r cymorth hwn, mae Teuluoedd yn Gyntaf yn ceisio lleihau'r effeithiau andwyol y gall gwahanu eu cael ar blant. Felly, ystyriwyd bod Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd a'r Tîm o Amgylch y Teulu yn y sefyllfa ddelfrydol i gynnig cymorth i rieni sy'n gwahanu, wedi'i deilwra i gefnogi eu hanghenion, a hynny am dri phrif reswm. Yn gyntaf, mae'r Tîm o Amgylch y Teulu yn wasanaeth cyffredinol nad yw'n gosod stigma ar rieni y mae eu cydberthynas yn chwalu,

ni fydd y rhieni'n teimlo fel eu bod nhw'n wahanol i neb arall, byddan nhw'n cael cynnig pecyn cymorth a chefnogaeth fel rhan o'r pecyn cymorth i'r teulu cyfan, os yw hynny'n gwneud synnwyr? Felly, dyw hi ddim yn fater o 'O rydych chi wedi gwahanu, mae hyn yn digwydd, mae angen i chi fynd fan hyn', mae'n rhan o'r hyn a gynigir eisoes, ac mae'n llwybr o gymorth (*Melissa, sefydliad elusennol*)

Yn ail, er bod y Tîm o Amgylch y Teulu yn cefnogi anghenion y teulu cyfan yn hytrach na chanolbwyntio ar faterion sy'n gysylltiedig â gwahanu, mae gan dimau Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd arbenigedd wrth weithio gyda gwrthdaro o fewn teuluoedd. Yn drydydd, wrth weithio gyda'r teulu cyfan, gall ymarferwyr gael gwybod am anawsterau sy'n gysylltiedig â gwahanu, hyd yn oed lle na fydd y rhieni'n ymwybodol bod y gwrthdaro rhyngddynt yn cael effaith andwyol ar y plentyn, neu lle nad oes ganddynt yr adnoddau mewnol i ofyn am help (*David, sefydliad elusennol*). Mewn gwirionedd, mae rhai Timau o Amgylch y Teulu eisoes yn darparu gwasanaethau datrys anghydfod, gyda rhai ohonynt wedi mabwysiadu agweddau ar raglen Gweithio Gyda'ch Gilydd Er Lles Plant (a ddisgrifir isod). Gan fod darpariaeth o'r fath ar gael eisoes, soniodd rhai ymatebwyr y byddai gwaith yn cael ei ddyblygu. Fel y nododd Michelle (*Tîm o Amgylch y Teulu*), gallai dyblygu gwasanaethau fod yn ddefnyddiol, pe bai'r gynghrair yn cynnwys mynediad am ddim i wasanaethau y mae awdurdodau lleol yn talu amdanynt ar hyn o bryd, neu'n andwyol, os ydynt ond yn dyblygu darpariaeth sydd ar gael eisoes.

5.1.2 Rhaglenni rhianta

Mae'n bosibl y bydd llysoedd teulu yn atgyfeirio rhieni at raglen rhianta, Gweithio Gyda'ch Gilydd Er Lles Plant (WT4C). Er bod ganddynt bwerau i wneud cyfarwyddiadau ynghylch gweithgarwch cyswllt o dan adran 11 o Ddeddf Plant 1989, nid oedd pob llys teulu yn ymwybodol o'r rhaglen hon. Serch hynny, mae WT4C yn rhaglen pedair awr â'r nod o ddatrys materion yn ymwneud â chyswllt, cyllid ac arddulliau rhianta. Roedd canfyddiad mai cyflwyniad i raglenni dyfnach oedd y rhaglen, yn hytrach nac ateb ynddi'i hun. Er enghraifft, mae Relate yn cyfeirio rhai rhieni at gymorth ychwanegol drwy ei wasanaethau mwy cyffredinol tra bod Parenting Apart yn Lloegr wedi'i greu ar sail y gydnabyddiaeth y gall gwrthdaro fod wedi'i ymwreiddio'n ddwfn ac y gall fod angen dulliau gweithredu dyfnach, wedi'u llywio gan drawma. Yn hyn o beth, gall rhieni wahanu o ganlyniad i gyfnod hir o anawsterau,

roedd rhai o'r sefyllfaoedd anodd hyn o fewn teuluoedd wedi bod yn digwydd ers misoedd a blynyddoedd, dydyn ni ddim yn sôn am ychydig wythnosau. Rydyn ni'n sôn am amser hir iawn, ac mae hynny'n cael effaith fawr ac yn peri trawma wedyn, ar blentyn, sy'n aml yn y canol (*David, sefydliad elusennol*).

O ran amseru, roedd ymatebwyr yn teimlo y gallai darparu cymorth cyn gwahanu helpu i atal anawsterau rhag ymwreiddio. Serch hyn, hyd yn oed lle gall rhieni ddod i gytundeb cychwynnol gall anawsterau godi wrth i strwythurau teulu newid dros amser. Er enghraifft, gall cyflwyno partneriaid newydd achosi anawsterau newydd. Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen am ymyrraeth amserol ac mae'n gysylltiedig â rhwystredigaeth am y rhestrau aros hir am raglenni a/neu gymorth.

Lle bydd rhieni yn hunanatgyfeirio er mwyn cael cymorth, ymddengys fod tueddiad i'w cyfeirio at raglenni rhianta. Nododd yr ymatebwyr amrywiaeth o raglenni rhianta a ddarperir gan awdurdodau lleol, elusennau a darparwyr preifat. Ymddengys fod yr union raglenni a ddefnyddir yn gysylltiedig â threfniadau comisiynu awdurdodau lleol ac, fel y cyfryw, roedd y canfyddiadau'n cefnogi'r syniad o loteri cod post. Er nad oedd y cyfweliadau'n ceisio pennu ansawdd cyrsiau o'r fath, nodwyd bod angen rhaglenni sy'n hwyluso cyfathrebu yng nghanol adfyd, ac yn canolbwyntio ar flaenoriaethu anghenion y plentyn, ar rieni sy'n gwahanu.

Rydyn ni'n gwbl ddiuedd, nid ochri â'r naill neu'r llall yw ein gwaith ni, ddim o gwbl. Yr hyn rydyn ni'n ei wneud drwy gydol y broses yw cynnig llais a'r safbwynt pendant bod angen rhoi blaenoriaeth i anghenion emosiynol eu plant bob amser (*Rebecca, rhaglen rhianta*)

Felly, nodwyd bod amrywiaeth yn nhermau perthnasedd a defnyddioldeb rhai rhaglenni rhianta i rieni sy'n gwahanu. Dangoswyd hefyd, lle gwerthuswyd rhaglenni o'r fath, nad oes sylw digonol wedi'i roi i'w heffaith ar dadau (Philip ac O'Brien, 2017).

Roedd parodrwydd rhieni i newid a datrys anawsterau yn ofyniad allweddol er mwyn sicrhau newid. Cynigiodd Jessica (*sefydliad elusennol*) y syniad bod parodrwydd i newid yn berthnasol i'r plant hefyd gan nodi,

lle bydd rhiant yn dilyn rhaglen rhianta, byddan nhw'n cael yr holl ymyriadau hyn, bydd eu dulliau rhianta'n newid dros nos, ac nid yw eu plentyn yn barod am hyn am nad yw ar yr un llwybr.

Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynnwys y teulu cyfan mewn rhaglenni.

Heb ymgysylltu â'r rhaglen a heb barodrwydd i wneud y newidiadau angenrheidiol, ymddengys mai'r unig dewis i rai teuluoedd yw mynd i'r llys,

yn enwedig pan fyddwn ni'n cael achosion sy'n dod i mewn dro ar ôl tro am yr un problemau cyswllt, bydd rhywfaint o gymorth wedi'i roi gan y tîm Cymorth Cynnar, byddan nhw wedi cwblhau'r rhaglen 'Parents as Partners', byddant wedi cael cymorth gennym ni, ac eto byddan nhw'n dal i ffonio bob wythnos neu ddwy gyda phroblem. Mae'r penwythnos yn cyrraedd, a bydd problem cyswllt... yn yr achosion hynny, byddwn ni'n dweud 'Rwy'n meddwl bod angen i chi geisio cyngor cyfreithiol' (*Clare, gwasanaethau cyfreithiol*)

Tra bod rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at rôl cyfryngu pan fydd rhieni'n methu â thorri'r cylch hwn, roedd eraill yn dueddol o atgyfeirio rhieni at gyngor cyfreithiol mwy cyffredinol. Nid oedd yn glir a oedd hyn oherwydd diffyg gwybodaeth am wasanaethau cyfryngu neu ddiffyg argaeledd.

5.1.3 Cyfryngu

Awgrymodd ymatebwyr, hyd yn oed pan fydd rhieni'n mynd i Gyfarfod Cyfryngu, Gwybodaeth as Asesu (MIAM), gall hyn gael ei ystyried yn ymarfer 'ticio'r blwch'. Mae cyfarfodydd MIAM, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2014 o dan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, yn ei gwneud yn ofynnol i bob ymgeisydd am achosion teuluol cyfraith breifat fynd i gyfarfod â chyfryngwr i drafod yr achos, dysgu am gyfryngu ac asesu a ellir datrys y materion drwy ddulliau datrys anghydfod y tu allan i'r llys, a manteision hynny. Canfu'r Gweithgor Cyfraith Breifat (2020) fod barn gymysg am ddefnyddioldeb y Cyfarfodydd hyn. Er bod rhai ymgynghoreion yn cefnogi camau gorfodi mwy trylwyr, roedd eraill yn nodi bod y camau'n rhy hwyr gan fod rhieni, erbyn hynny, yn benderfynol o fynd i'r llys.

Serch hyn, o dan y Rhaglen Trefniadau Plant, mae disgwyl bod y ddau riant wedi bod i gyfarfod MIAM cyn y gallant lenwi ffurflen C100 er mwyn mynd ymlaen i'r llys.

Er mai cyfryngu yw'r prif ddull o gyfeirio teuluoedd oddi wrth y llysoedd, mae'r niferoedd sy'n manteisio arno yn gymharol isel (Cusworth et al, i ddod). Mae'r niferoedd wedi lleihau ymhellach ers cyflwyno Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwr Cyfreithiol 2012, lle cafodd y gofyniad i gyfeirio at gyfryngu ei ddileu i raddau helaeth. Mae'n bwysig nodi, yn wahanol i gymorth i deuluoedd neu rai rhaglenni rhianta, fod yn rhaid i'r rhieni dalu am wasanaethau cyfryngu. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr fod hyn yn annog rhieni i beidio â manteisio arno, yn enwedig am fod y rhieni'n gallu mynd i'r llys am lai o gost o lawer.

Lle bydd un rhiant wedi dangos diddordeb mewn cyfryngu ymddengys fod diffyg ymgysylltiad gan y rhiant arall yn eithaf cyffredin, ac ni allai'r cyfryngwr wneud fawr ddim i feithrin ymgysylltiad. Lle roedd y rhieni yn ymgysylltu, ystyriwyd bod cyfryngu yn wasanaeth buddiol a allai gyfeirio rhieni oddi wrth y llysoedd yn llwyddiannus. Fel y nododd un cyfryngwr,

un o'r dulliau rwy'n eu defnyddio wrth gyfryngu yw atgoffa pobl yn rheolaidd bod yna amser pan oeddech chi'n caru eich gilydd, ac weithiau, mae hynny'n cael ei golli yng nghanol y llythyrau chwerw gan gyfreithwyr

Nododd yr ymatebwyr amrywiaeth o arferion cyfryngu, o ymarferion a gredai eu bod nhw eu hunain yn cyflawni rôl cyfryngu, i sefydliadau cyfryngu wedi'u staffio gan gyfryngwyr cymwys. Yn ogystal, mae rhai canolfannau cyswllt yn ganolfan ar gyfer cyfryngwyr proffesiynol. Dylid nodi mai dim ond nifer bach o gyfryngwyr yng Nghymru sydd wedi'u hachredu i gynnal cyfarfodydd MIAM, ac mae llai byth yn gweithio i sefydliad sydd â chontract cymorth cyfreithiol sy'n caniatáu iddynt gael cyllid cyhoeddus.

At hyn, ymddengys mai ychydig iawn o gyfryngwyr a oedd yn gymwys i weithio gyda phlant. Serch hyn, dywedodd un cyfryngwr 'mae fy mhrofiad o gyfryngu sy'n cynnwys y plentyn yn gadarnhaol tu hwnt' a'i fod yn llwyddo i gyflwyno dymuniadau a theimladau'r plentyn i'r rhieni.

Gan atgyfnerthu canfyddiadau am y newid i'r diffiniad o rolau a ddaw yn sgil gwahanu, pwysleisiodd Jackie (*sefydliad preifat*) mai nod cyfryngu oedd,

annog teuluoedd i drafod eu dyfodol gyda'r nod o'u helpu i ddeall sut y gallant ymdopi fel teulu sydd wedi gwahanu.

Gall rhai rhieni gymryd rhan mewn sesiynau cyfryngu am gyfnod parhaus o chwe i ddeuddeg mis, tra bod eraill yn cael tair sesiwn ac yna gall fod amser hir cyn y byddant

yn dychwelyd. At hyn, gall rhieni ddychwelyd at y gwasanaeth cyfryngu yn y dyfodol os bydd angen.

5.1.5 Canolfannau Cyswllt

O ran rôl canolfannau cyswllt, mae canfyddiadau'r Gwerthusiad o Gronfa Arloesi Cymorth a Chefnogaeth i Deuluoedd sydd wedi Gwahanu (TNS BMRB, 2016) wedi dangos bod rhieni'n croesawu'r cyfle i gadw cyswllt rheolaidd â'u plant heb orfod mynd i'r llys. Yn Lloegr, mae'n rhaid i'r canolfannau cyswllt fod wedi'u cofrestru â Chymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyswllt yn Lloegr, ond cwestiynwyd pa mor addas oedd yr achrediad hwn i gyd-destun Cymru.

Mae canolfannau cyswllt yn cynnig lleoliad niwtral ar gyfer cyswllt wedi'i oruchwylio, lle gall aelod cymwys o staff aros yn yr ystafell gyda'r plentyn, neu gyswllt â chymorth, lle bydd staff neu wirfoddolwyr yn bresennol tra bod teuluoedd yn rhannu cyfleusterau. Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i gynllunio'n ofalus, gyda amseroedd cyrraedd a gadael a mynedfeydd ac allanfeydd gwahanol i unrhyw riant

nad yw'n teimlo'n ddiogel i fod yn bresennol ar yr un pryd â'r rhiant arall am nad ydyn nhw ar delerau da neu nad ydynt eisiau bod yn agos atynt (*Michael, sefydliad elusenol*)

Weithiau fydd canolfannau cyswllt yn y man cyntaf y bydd rhai rhieni'n troi ato am gymorth a chefnogaeth. Felly, mae'r staff a'r gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi i allu cyfeirio rhieni at wasanaethau eraill fel cyfryngu (*Michael, sefydliad elusenol*). Serch hyn, fel y nodwyd, gall canolfannau cyswllt hefyd hwyluso mynediad at gyfryngwr yn ogystal â chynnig lle diogel i gyfarfod ar gyfer sesiwn gyfryngu.

Lle bydd rhieni'n hunangyfeirio, rhaid i'r ddau riant gytuno i'r cyswllt ddigwydd yn y ganolfan a bydd yn rhaid iddynt dalu am yr asesiad diogelu a phob sesiwn gyswllt dilynol. Lle bydd yr atgyfeiriad yn cael ei gwneud gan lysoedd teulu, Cafcass Cymru fydd yn talu am y chwe sesiwn gyntaf. Dywedodd un ymatebwr fod rhieni'n aml yn parhau i dalu am chwe sesiwn arall, ond bod hyn yn dibynnu ar yr achos penodol.

5.1.6 Dulliau gweithredu eraill nad ydynt yn seiliedig ar y llys

Y brif thema a oedd yn codi o'r cyfweiliadau oedd natur emosiynol y tor-perthynas. Dan yr amgylchiadau hyn, nododd ymatebwyr yr anawsterau naturiol i roi'r teimladau hyn i'r naill ochr er mwyn datrys materion sy'n gysylltiedig â'r plentyn mewn ffordd gyfeillgar,

Ac rwy'n meddwl pan fydd cydberthynas yn chwalu, mae cymaint o emosiwn yn gysylltiedig â hynny on'd oes? Ac i symud oddi wrth hynny,

neu i'w roi i'r naill ochr, rwy'n credu eich bod chi weithiau ddim yn gwybod beth rydych chi'n ei wneud, neu allwch chi mo'r help, a bod yn onest (*Jessica, sefydliad elusennol*)

Felly, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod anghenion y plentyn yn mynd ar goll wrth i anghenion y rhiant gael blaenoriaeth. Serch hyn, nid yw'r ffaith bod cydberthynas y rhieni wedi chwalu yn golygu bod y gydberthynas rhwng y rhiant a'r plentyn wedi chwalu,

mae'r plant yn gweld y ddau riant drwy'r un llygaid, y gydberthynas rhwng y rhieni sydd wedi chwalu. Mae'n gwneud niwed emosiynol i'r plentyn i beidio â chael y ddau riant a'r cysylltiad emosiynol â'r plentyn (*Michael, sefydliad elusennol*)

Disgrifiodd yr ymatebwyr fod hwyliau gwael neu orbryder uchel y rhieni yn tynnu sylw at gyffredinrwydd problemau iechyd meddwl, naill ai cyn i'r cydberthynas chwalu, neu'n dilyn hynny. Nodwyd hefyd fod gwahanu yn effeithio ar eu hymdeimlad ohonyn nhw eu hunain. I'r rhieni hynny a fu'n cyd-fyw, roedd gwahanu yn gysylltiedig ag ailddiffinio'u rôl fel rhieni. I rieni preswyl, roedd hyn yn golygu eu hailsefydlu eu hunain fel rhiant sengl, ac i'r rhiant amhreswyl, roedd hyn yn golygu dod i delerau â chael llai o gyswllt a'u plant,

mae gennych lond lle o bethau i ymdopi â nhw, bod yn rhiant sengl eto, neu fynd yn ôl i fod yn rhiant absennol pan fydd eich dylanwad ar y teulu wedi'i leihau'n sydyn. Felly, ie, mae gennym dipyn o waith i'w wneud yn hynny o beth, yn ogystal â helpu teuluoedd i adsefydlu eu hunain, mewn gwirionedd (*Angela, tîm awdurdod lleol*).

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn glir na fyddent yn cael eu gwrthio i ochri â'r naill neu'r llall. Roedd hyn yn arbennig o amlwg mewn gwasanaethau a oedd yn cynnig cymorth i'r teulu cyfan ac a oedd yn ymdrechu i ymgysylltu â'r ddau riant. Lle nad yw sefydliadau'n mabwysiadu dulliau gweithredu o'r fath sy'n canolbwyntio ar y teulu cyfan, awgrymwyd eu bod yn anorfod ond yn cynrychioli un safbwynt. Serch hyn, soniodd ymatebwyr am gynnig lle diogel i rieni siarad am y ffaith bod y gydberthynas wedi chwalu. Roedd hyn yn amlwg ym mhob un o'r gwasanaethau, o'r rhai a oedd wedi'u hanelu at deuluoedd cyfan, ac yn seiliedig ar gryfderau, i gyfryngwyr a'r rhai sy'n cefnogi rhieni drwy broses y llys,

Yn achos cryn dipyn o'r cleientiaid rydym yn gweithio gyda nhw, ni yw'r sefydliad cyntaf y maen nhw wedi rhannu'u stori ag ef, felly mae cymorth emosiynol yn eithaf pwysig i ni mewn gwirionedd (*Rosemary, sefydliad elusennol*)

Felly, soniodd nifer o'r ymatebwyr am yr angen i fabwysiadu dulliau sy'n seiliedig a drawma gyda rhieni sy'n gwahanu. Yn ogystal, defnyddir cynadleddau grŵp teulu ac arferion adferol fel dulliau o ddatrys anghydfod y tu allan i'r llys. Bwriedir i gynadleddau grŵp teulu greu amgylchedd lle bydd y teuluoedd yn arwain y broses o wneud penderfyniadau a chynllunio (Edwards a Parkinson, 2018). Mae'r ffordd maent yn cynnwys y teulu estynedig yn cydnabod pwysigrwydd cydberthnasau y tu hwnt i'r rhiant. Fel y nododd un o'r ymatebwyr, pan fydd cydberthnasau yn chwalu, gall y plentyn golli cysylltiad a neiniau a theidiau, modrybedd, ewythrod ac aelodau eraill o'u rhwydwaith teulu ehangach. Gall cynadleddau grŵp teulu gynnig lle diogel i'r teulu drafod y gwrthdaro a cheisio datrysiaid cyfeillgar. Canfuwyd y gall siarad am y ffaith bod y cydberthynas wedi chwalu gael effaith fawr ar rieni,

roedd mam yn sgrechian ac yn gweiddi, ac yna rhuthrodd allan mewn tymer. Daeth yn ei hôl, cafodd ddweud ei dweud, a dywedodd wrth dad beth oedd hi'n meddwl ohono. Pan ddaeth cyfle dad i siarad, eisteddodd yno yn beichio crio yn dweud, "mae'n ddrwg da fi. Roeddwn i'n 19 pan gawson ni ein mab. Doeddwn i ddim yn gallu ymdopi. Roedd rhaid i fi adael." Ac ar ryw adeg yn ystod y cyfarfod, dywedodd mam 'Roedd angen i fi glywed hynny.' Roedden nhw wedi bod yn ymladd am ryw dair blynedd, a'r cyfan roedd ei angen arni oedd ei glywed e'n dweud 'Mae'n ddrwg da fi' (*Christopher, sefydliad elusenol*)

Mae'r uchod yn dangos natur emosiynol tor-perthynas ac arwyddocâd datrys materion sy'n gysylltiedig â'r gydberthynas. Heb hyn mae risg bod y gwrthdaro'n ymwreiddio, gan olygu ei bod yn ymddangos yn amhosibl ei ddatrys mewn ffordd gyfeillgar (Doughty et al, 2018).

Amlygwyd bod arferion adferol yn ddull effeithiol o ddatrys gwrthdaro yn y cydberthynas. Mae arferion adferol yn ddull sy'n seiliedig ar gryfderau sy'n dod â'r rhieni a'r plant at ei gilydd i ystyried sut mae'r tor-perthynas wedi effeithio arnynt a sut y gellir datrys hyn. Wrth wneud hyn, mae arferion adferol yn cefnogi rhieni drwy'r broses o wahanu,

mae'n anodd, mae'n golled, mae'n brofedigaeth, felly rydych chi'n helpu pobl drwy'r broses alaru yn rhagweithiol, fel bod yr elfen dicter o'r golled a'r galar, sy'n naturiol... ar ryw adeg, roedden nhw'n caru ei gilydd, rwy'n tybio, felly mae'n fater o gofio'r gwerthoedd adferol eraill, hiwmor, parch a'r ansawdd. Ceisiwch gadw eich hunan-barch a pharchu'r person arall. Gallwch chi gasáu eich gilydd, ond gallwch barhau i ddangos parch (*Amanda, menter gymdeithasol*).

O fewn arferion adferol, caiff rhieni eu cefnogi i ystyried eu teimladau fel eu bod yn gallu pennu pa gymorth a chefnogaeth sydd eu hangen arnynt. At hyn, daeth i'r amlwg bod y syniad o sefydlu cydberthnasau parchus o'r pwys mwyaf ar gyfer dulliau datrys y tu allan i'r llysoedd.

6.0 Datblygu Cynghrai Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu

Rwy'n credu y byddai'r grŵp rydych yn gobeithio'i sefydlu yn wych. Mae cymaint o gyplau sy'n mynd i'r llys teulu y dylent fod yn gallu datrys eu sefyllfaoedd drwy gyfryngu neu gwnsela (*Nicola, sefydliad annibynnol*).

Fel y mae'r dyfyniad uchod yn ei ddangos, roedd yr ymatebwyr yn gweld angen glir am ddull o gyfeirio rhieni oddi wrth y llys a rhoi'r cymorth priodol iddynt ddatrys materion sy'n gysylltiedig â'r plentyn. Felly, roedd pob un o'r cyfranogwyr yn cefnogi creu Cynghrai Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu. Roedd eu barn ar y ffordd orau o ddatblygu'r gynghrai yn amrywio.

6.1 Cyfeiriad strategol

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod angen i Lywodraeth Cymru roi syniad clir o ddiben i'r Gynghrai Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu. Hebdo, nid oedd yr ymatebwyr yn sicr y byddai'r gwasanaethau priodol yn ymrwymo i'r Gynghrai Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu. Teimlwyd mai Llywodraeth Cymru fyddai'r arweinydd mwyaf effeithiol ond awgrymwyd bod byrddau diogelu lleol hefyd mewn sefyllfa ddelfrydol i gynnig y ddarpariaeth benodol sydd ei hangen ar gyfer rhanbarthau daearyddol gwahanol Cymru,

o gofio'r amrywiaeth yn y gwasanaethau sydd ar gael, a'r gwahaniaethau demograffig tebygol mewn gwahanol rannau o Gymru hefyd, mewn gwirionedd, gallai fod yn werth chweil i bob rhanbarth unigol gael ei fwrdd ei hun, os hoffech chi, a allai dynnu'r gwasanaethau gwahanol at ei gilydd, ac ystyried y strategaethau priodol er mwyn delio â'r hyn sy'n digwydd yn y maes hwnnw (*David, sefydliad elusenol*)

Felly, awgrymwyd y dylai cyfeiriad strategol y Gynghrai Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu gael ei bennu'n genedlaethol er mwyn meithrin ymgysylltiad a sicrhau cysondeb ledled Cymru. Yna dylai'r gwaith gweithredu gael ei wneud ar lefel leol er mwyn defnyddio gwasanaethau i ddiwallu anghenion lleol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried y cyfraddau gwahanol o geisiadau cyfraith gyhoeddus ledled Cymru. Yn eu dadansoddiad o gyfanswm y ceisiadau cyfraith breifat fesul 10,000 o aelwydydd teuluol yn 2018, canfu Cusworth et al. (i ddod) 71 o geisiadau fesul 10,000 yn y Gogledd a 91 o geisiadau fesul 10,000 yng Nghaerdydd a'r De-ddwyrain. Fodd bynnag, yn Abertawe a De-orllewin Cymru roedd y gyfradd uchaf, sef 110 o geisiadau fesul 10,000 o aelwydydd teuluol.

Pwysleisiodd yr ymatebwyr yr angen am gyllid priodol, hirdymor er mwyn sefydlu a chynnal y gwasanaeth dros amser. Yn hyn o beth, mynegodd ymatebwyr rwystredigaeth fod rhai mentrau yn cael cyllid tymor penodol, ac felly eu bod yn dod i ben weithiau ar yr union adeg y bydd y gwasanaeth wedi ymsefydlu. Mynegwyd pryderon am gyllid hefyd pe bai elusennau'n cystadlu yn erbyn ei gilydd.

ond y gwir amdani yw, byddwn yn cystadlu am yr un cyllid, o bosibl, oni bai bod tendrau'n cael eu cyflwyno ar gyfer cyllid grant yn hytrach na phroses dendro, oherwydd ni fydd gan sefydliadau bach fel ni obaith yn erbyn elusennau mawr (*Amanda, elusen*)

Aeth Amanda yn ei blaen i rybuddio rhag defnyddio'r Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu fel cyfle marchnata yn hytrach na phartneriaeth wirioneddol rhwng asiantaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella llesiant a chanlyniadau i blant a theuluoedd. Fel y disgrifiwyd yn gynharach, credwyd bod yr angen am neges glir a chyson ar draws y Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu yn ffactor pwysig er mwyn lleihau dryswch ymhlith rhieni,

Mae gennych amryw sefydliadau gwahanol sy'n dweud pethau cwbl wahanol wrth bobl, sy'n ychwanegu at ddryswch cwpl nad ydynt yn gwybod beth yn y byd i'w wneud (*Lucy, sefydliad preifat*)

Teimlwyd bod yr angen am ddull gweithredu cynhwysol, niwtral yn hanfodol, nid ar gyfer cyllid yn unig, ond er mwyn sicrhau y gall rhieni gael y cymorth gorau ar gyfer eu hanghenion hefyd.

6.2 Gwelededd a hygyrchedd

Roedd gwelededd yn thema gyffredin drwy gydol y cyfweiliadau ag ymatebwyr. Ystyriwyd ei bod yn hanfodol bod sefydliadau fel Cyngor ar Bopeth yn cyfeirio at y Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu, ond nodwyd hefyd fod angen cynyddu gwybodaeth ymhlith ymarferwyr gan gynnwys cynghorwyr llysoedd teulu gyda Cafcass Cymru ac ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd. Fel y nodwyd, mae rhieni yn aml yn dibynnu ar Google er mwyn dod o hyd i gyngor a gwybodaeth. Felly argymhellwyd y dylai'r Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu gael presenoldeb digidol amlwg. Er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau nad yw rhieni'n defnyddio termau chwilio wedi'u diffinio'n glir, awgrymwyd y dylid defnyddio meta data yn briodol er mwyn sicrhau bod amrywiaeth eang o dermau chwilio yn arwain at y Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu (yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2019). Mae hyn yn cynnwys y defnydd o chwilio mewn seilos fel tai, cyllid a gwarchodaeth.

Cwestiynwyd i ba raddau roedd staff presennol yn ymwybodol o gyfryngu, WT4C ac adnoddau fel Cynllun Rhianta Cafcass Cymru. Cwestiynwyd hefyd a oedd 'y byd cyfreithiol am weld hyn' (*Christopher, sefydliad elusenol*) gan y gallai cyfeirio teuluoedd o'r llys arwain at golli incwm. Er ei bod yn glir o adroddiadau Gweithgor Cyfraith Breifat (2020) fod gweithwyr proffesiynol cyfreithiol yn dymuno gweld mwy o anghydfodau'n cael eu datrys y tu allan i'r llys nag sy'n digwydd ar hyn o bryd, yn gyffredinol, mae'r sylw hwn yn nodi angen i weithio'n ofalus gyda chyfreithwyr ac ymarferwyr llysoedd teulu i atal drifft rhwng y Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu a'r llysoedd teulu. I rieni, gwnaed nifer o awgrymiadau, gan gynnwys defnyddio taflenni papur mewn meddygfeydd, adrannau pediatreg, meithrinfeydd, ysgolion a chanolfannau hamdden a thaflenni electronig sy'n hawdd cael gafael arnynt drwy ddefnyddio peiriannau chwilio ar y rhyngwrdd. Yn ogystal, nodwyd bod yn rhaid i'r Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu fod yn hawdd cael gafael arni,

Dw i ddim yn meddwl y dylai fod yn anodd cael gafael arni; dydych chi ddim eisiau i deulu wynebu rhwystrau. Yn ddelfrydol, byddai gweithiwr proffesiynol yn gallu cael mynediad ati ar ran teulu, neu byddai teulu yn gallu ffonio neu wneud cais amdani eu hunain. Achos yr hyn sy'n bwysig yw bod pobl yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir.

Gellid cael gafael ar y cymorth cywir wedyn drwy lwybrau cymorth y cytunwyd arnynt a lle gall yr holl sefydliadau yn y Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu weithio tuag at yr un canlyniadau. Cafodd yr ymadrodd 'y cymorth cywir ar yr adeg gywir' ei ailadrodd gan yr ymatebwyr yn aml. Mae hyn yn adlewyrchu'r farn bod cymorth cynnar yn hanfodol er mwyn atal problemau rhag ymwreiddio (Doughty, Maxwell a Slater, 2018).

6.3 Sicrhau Ansawdd

Pwysleisiodd yr ymatebwyr yr angen am broses sicrhau ansawdd ar gyfer gwasanaethau sy'n ymuno â'r Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu. Byddai hyn yn rhoi tawelwch meddwl i rieni eu bod yn cael cyngor a gwybodaeth gredadwy gan ffynonellau gwybodus. Disgrifiodd nifer o'r ymatebwyr pa mor hawdd yw hi i rieni, yn ddarwybod iddynt, gael gafael ar bobl sy'n honni eu bod yn weithwyr proffesiynol, ond nad oes ganddynt y cymwysterau na'r sgiliau angenrheidiol,

Fe welwch chi nad yw llawer o'r cyfryngwyr preifat wedi'u cofrestru â'r FMC [Cyngor Cyfryngu Teuluol], ac felly ni allant wneud gwaith Cymorth Cyfreithiol, sy'n ddrwg o ystyried, mae'r achosion arian mawr hyn maen nhw'n dueddol o ddewis cyfreithwyr cyfryngu, sy'n codi £450 yw awr, o gymharu â'm ffi i, sef £120. A dydyn nhw ddim yn gyfryngwyr cyswllt a dydyn nhw ddim yn gyfryngwr awdurdodedig, y cyfan maen nhw wedi'i wneud yw cwrs tridiau (*Lucy, sefydliad preifat*).

Cyfeiriodd un ymatebwr at Nod 'Help and Support for Separated Families' (HSSF), a roddir i sefydliadau sy'n bodloni'r safonau gofynnol sy'n gysylltiedig â gweithio er budd pennaf rhieni a phlant, lle mae'n briodol ac yn ddiogel i wneud hynny (YNS MBRB, 2016). Yng Nghymru, mae Nod Ansawdd y Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor (IAFQ Cymru) yn dangos bod y wybodaeth a'r cyngor o ansawdd uchel a bod y sefydliad yn ymrwymedig i wella ei wasanaethau'n barhaus (Llywodraeth Cymru, 2018).

6.4 Opsiwn dim cost ychwanegol

Er mwyn datblygu Cyngrhair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu o fewn adnoddau presennol heb gost ychwanegol, awgrymwyd y byddai'r Gynghrair ar ffurf cyfeiriadur a fyddai ar gael drwy ddrws ffrynt electronig, ac yn cynnwys 'siop un stop' i rieni ac ymarferwyr (*Gemma, gwasanaeth statudol*). Nid yw awgrym o'r fath yn newydd o bell ffordd, fel y noda Kimberly, o fewn cyfeiriaduron ac adnoddau ar-lein presennol fel Dewis Cymru, mae diffyg gwasanaethau sy'n ceisio lleihau gwrthdaro rhwng rhieni,

Byddwn wrth fy modd yn gweld rhywbeth sy'n harneiso'r holl bethau hynny, y gwaith da sy'n cael ei wneud ac sydd mewn un pot, fel petai, fel ein bod yn gallu gweld beth sydd ar gael ac y gallwn gyfeirio ato er budd yr holl deuluoedd rydym yn gweithio gyda nhw (*Kimberly, gwasanaeth statudol*).

Roedd barn gymysg am bwy fyddai'n defnyddio cyfeiriadur o'r fath. Yn y dyfyniad uchod, disgrifiodd Kimberly y byddai ymarferwyr yn defnyddio'r cyfeiriadur er budd teuluoedd. Roedd adborth gan y grwpiau ymgynghori yn cefnogi'r datganiad hwn wrth i'r ymatebwyr nodi eu bod yn amau a fyddai teuluoedd agored i niwed yn cael eu grymuso ddigon i ddefnyddio cyfeiriadur. Gan gydnabod bod y cyfweiliadau wedi cael eu cynnal yn ystod pandemig COVID-19, ac o ganlyniad, fod cyfyngiadau symud ar waith sydd wedi golygu symud i weithio ar-lein, efallai nad yw'n syndod fod llawer o ymatebwyr wedi sôn am effeithlonrwydd technoleg ddigidol a'i chwmpas posibl. Argymhellodd rhai ymatebwyr y gallai'r Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu gael drws ffrynt electronig, naill ar drwy wefan ganolog neu ap. Fel arall, roedd y farn yn rhanedig rhwng yr ymatebwyr eraill, gyda rhai o blaid lleoli'r Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu yn ffisegol o fewn darpariaeth bresennol ac eraill o blaid ei sefydlu'n annibynnol ar awdurdodau lleol. Fodd bynnag, nid yw'n glir i ba raddau y mae pob opsiwn yn sicrhau mynediad cyfartal i bob teulu, ni waeth beth yw eu statws economaidd-gymdeithasol, amrywiaeth neu anghenion. Roedd awgrym y gallai rhai teuluoedd dosbarth canol ei chael hi'n haws defnyddio technoleg ddigidol i gael gafael ar wybodaeth, tra byddai rhieni hŷn, y rhai â phroblemau iechyd hirdymor a rhieni anabl yn fwy cyfforddus â chyswllt wyneb yn wyneb.

Ar y llaw arall, wrth greu cyfeiriadur ar gyfer ymarferwyr, awgrymwyd y gellid creu porthol tebyg i Borthol Llesiant y Boblogaeth (Dolen Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif, 2020).

Datblygwyd y porthol hwn fel rhan o fenter newid ymddygiad iechyd, Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif, lle caiff ymarferwyr iechyd eu hyfforddi i ddarparu gwybodaeth a chyfeirio fel rhan o'u cyswllt bob dydd â'r cyhoedd (Nelson et al., 2013). Caiff y porthol hwn ei ddarparu ar sail ranbarthol ac mae'n cefnogi ymarferwyr i godi ymwybyddiaeth er mwyn ysgogi aelodau'r cyhoedd i wella eu hiechyd a'u lles drwy gyfeirio at wybodaeth yn ymwneud â gwella iechyd, fel hunanofal, cymorth cenedlaethol a chymorth lleol.

Cafodd yr awgrym y gallid manteisio ar ddarpariaeth bresennol o fewn Dewis Cymru, neu o gangen arbenigol y ceir mynediad ati drwy Dewis Cymru, ei wrthod gan yr ymatebwyr. Cyfeiriadur ar-lein o wasanaethau llesiant ledled Cymru yw Dewis Cymru, y gellir ei chwilio yn ôl lleoliad a'r math o wasanaeth. Mae Dewis Cymru hefyd yn cynnwys tudalennau wedi'u teilwra ar gyfer cynulleidfaoedd penodol. Er enghraifft, mae tudalennau'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn cynnwys dolenni i wasanaethau sydd wedi'u hanelu at rieni, fel grwpiau chwarae a gwarchodwyr plant gydag unigolion/sefydliadau sy'n gyfrifol am greu a diweddarau eu gwybodaeth (er ei bod yn cael ei hadolygu a'i chymeradwyo gan olygyddion cyn ei chyhoeddi). Dywedodd llawer o ymatebwyr nad oeddent yn ymwybodol o Dewis Cymru, a dywedodd y rhai a oedd yn ei ddefnyddio nad oedd y wybodaeth yn gyfredol. Nodwyd hefyd nad oes gwybodaeth ar gael i rieni sy'n gwahanu ar hyn o bryd. Felly, roedd aelodau o'r grwpiau ymgynghori yn amheus ynghylch faint o adnoddau fyddai eu hangen i wella ymwybyddiaeth o frand Dewis Cymru, cynnal prosesau sicrhau ansawdd a sicrhau bod gwybodaeth briodol yn cael ei chynnwys a'i diweddarau'n rheolaidd. Defnyddiwyd y Gronfa Gyngori Sengl i ddangos graddfa'r dasg hon

Ariennir y Gronfa Gyngori Sengl gan Lywodraeth Cymru ac fe'i darperir gan Cyngor ar Bopeth a'i bartneriaid. Cynigiwyd y fenter hon yn 2019 ar gyfer caffael fel deuddeg dyfarniad ranbarthol ar wahân ac un dyfarniad o bell ar gyfer darparu gwybodaeth a chynghor cyffredinol ac arbenigol a drefnodd partneriaethau lleol a chenedlaethol i ddarparu cymorth integredig. O dan bob hysbysiad, roedd pob ranbarth yn pennu grwpiau targed agored i niwed y dylai'r Gronfa Gyngori Sengl gynyddu ei waith ymgysylltu â nhw. Wrth wneud hynny, mae Cyngor ar Bopeth wedi meithrin cydberthnasau â phartneriaethau a ariennir a phartneriaethau nas ariennir gyda sefydliadau, o'r enw 'Partneriaid Cyngor neu Fynediad', ym mhob ranbarth ac o bell drwy system atgyfeirio electronig, 'ReferNet'. Y nod yw y bydd ReferNet yn cysylltu aelodau'r cyhoedd â'r ffynonellau cymorth mwyaf priodol gan sefydliadau, a hynny mewn modd amserol. Disgwylir y bydd partneriaid mynediad a chynghor yn mynd ati i atgyfeirio cleientiaid at ei gilydd, yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r gwasanaethau y gall pob sefydliad eu cynnig. At hyn, mae system ReferNet yn darparu gwybodaeth reoli yn ymwneud â'r gyfradd o bobl sy'n manteisio ar y gwasanaethau y cânt eu hatgyfeirio atynt, fel y gall Cyngor ar Bopeth a'i bartneriaid gymryd camau dilynol yn hyn o beth er mwyn gwella'r system a nifer y bobl sy'n manteisio ar y gwasanaethau. Fodd bynnag, fel y nodwyd, mae rhai grwpiau yn llai parod i ddefnyddio cymorth digidol, felly mae'r Gronfa

Gynghori Sengl yn cynnwys darpariaeth wyneb yn wyneb a ddarperir drwy swyddfeydd Cyngor ar Bopeth (er bod hyn wedi bod yn gyfyngedig yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19). Er bod y fenter hon yn ymddangos yn addawol, mae dau brif gyfyngiad yn gysylltiedig â'i defnyddio fel cyfrwng ar gyfer y Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu ar ei ffurf bresennol. Yn gyntaf, mae llawer mwy o alw am wybodaeth a chynghor yng Nghymru nag y gall darpariaeth y Gronfa Gynghori Sengl ei ateb. Er enghraifft, amcangyfrifir ar hyn o bryd ei bod yn ateb 60% o'r galw am y gwasanaeth ffôn o bell. Yng ngoleuni COVID-19, disgwylir y bydd y galw am gymorth a chefnogaeth o ran cyflogaeth, dyled a budd-daliadau lles yn cynyddu'n sylweddol. Yn ail, ar hyn o bryd, mae'r fenter ond wedi'i chyllido tan fis Rhagfyr 2020. Fodd bynnag, mae angen cyllid cyson i ddatblygu'r adnodd i gynnwys gwasanaethau wedi'u cyfeirio at dor-perthynas, ac er mwyn hyrwyddo'r cyfeiriadur fel ei fod yn ymwreiddio ar draws y gwasanaethau.

6.4.1 Senario un

Heb unrhyw gyllid ychwanegol, mae'n rhaid i senario un gael ei ddarparu o fewn y ddarpariaeth bresennol. Cododd ddau opsiwn o'r data a gasglwyd: Dewis Cymru a'r Gronfa Gynghori Sengl. O'r ddau opsiwn hyn, mae'r Gronfa Gynghori Sengl yn cynnig y fantais ychwanegol o gynnig gwybodaeth a chynghor yn lleol, gyda Cyngor ar Bopeth yn cyfeirio rhieni at wasanaethau presennol. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael yn electronig a wyneb yn wyneb, gan ehangu'r potensial ar gyfer cyrraedd teuluoedd agored i niwed a theuluoedd sy'n gwrthod gwasanaethau. Gellid ehangu'r ReferNet presennol er mwyn iddo gyfeirio rhieni at y cymorth mwyaf priodol. Er mwyn dod yn bartner cyngor neu fynediad, mae'n rhaid i sefydliadau ennill Nod Ansawdd Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chynghor Cymru (Llywodraeth Cymru, 2018).

Fel y nodwyd, un o fanteision allweddol arlwy electronig yw bod rhieni yn gallu cael gafael ar gymorth a chefnogaeth ar adeg a chyflymder o'u dewis. Lle bydd rhieni'n cael gafael ar wybodaeth ar-lein ar gyfer cymorth cydberthnasau, mae hyn yn aml yn ymatebol ac wedi'i ysgogi gan emosiwn er mwyn ceisio gwybodaeth ar sail materion unigol (Connors a Thomas, 2014). Felly, mae darparu cyfeiriadur electronig yn cynnig ymateb amserol. Ystyriwyd bod gan senario un botensial i leihau achosion o ddyblygu gwasanaethau a gwariant cysylltiedig.

Mewn gwirionedd, pe bai gennym ni gyd syniad cryf a chadarn iawn o'r hyn rydyn ni gyd yn ei wneud ar draws y wlad neu yn ein hardaloedd llai, ni fyddai angen i ni fod yn ceisio codi'r arian neu dalu am hyn, y llall ac arall, oherwydd unwaith eto, byddem yn dyblygu. Ond rwy'n credu bod cynifer ohonynt mor - ac rwy'n siŵr y bydd nifer o bobl a fyddai'n dweud hyn hefyd, rydyn ni i gyd yn gweithio mor galed â'n pennau i lawr, nad oes gennym ni'r amser mewn gwirionedd, a dyna lle bydd y gynghrair o gymorth (*Kimberly, gwasanaeth statudol*).

Byddai cynnwys y Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu yn y Gronfa Gynghori Sengl yn manteisio ar frand Cyngor ar Bopeth a'r gwaith a wnaed hyd yma. Fodd bynnag, mae'r senario hwn yn dibynnu ar barhad y cyllid ar gyfer y Gronfa Gynghori Sengl ar ôl mis Rhagfyr 2020. Pe bai hyn yn digwydd, gellid treialu senario dau mewn un rhanbarth drwy ymestyn yr adnoddau presennol i gynnwys adnoddau ar gyfer rheini sy'n gwahanu. Er bod Cyngor ar Bopeth yn cynnwys cymorth ymarferol â materion tai a materion ariannol, byddai angen hyfforddiant pellach ar dor-perthynas a gwahanu. Byddai angen i'r hyfforddiant gynnwys adnoddau eraill nad ydynt yn seiliedig ar y llys, yn ogystal â chymorth i deuluoedd a rhaglenni rhianta. At hyn, dylid gwahodd sefydliadau cyfryngu a chanolfannau cyswllt i ddod yn bartneriaid cyngor neu fynediad. Bydd angen addasu ReferNet er mwyn tynnu sylw at adnoddau perthnasol i rieni sy'n gwahanu.

6.5 Adnoddau ychwanegol cyfyngedig

Drwy'r ymarfer mapio a'r cyfarfodydd â rhanddeiliaid, daeth yr amrywiaeth o wasanaethau presennol a ddarperir i'r amlwg. Cododd tair prif thema o fewn yr opsiwn cost adnoddau ychwanegol cyfyngedig (uchafswm £100k y flwyddyn). Yn gyntaf, argymhellodd rhai ymatebwyr y dylid atgyfnerthu'r cyfarfodydd MIAM. Fel y trafodwyd yn gynharach, caiff y cyfarfod MIAM ei drin weithiau fel ymarfer ticio blwch yn hytrach na chyfle i ystyried cyfryngu neu opsiynau datrys anghydfod eraill y tu allan i'r llys. Awgrymwyd hefyd nad oes gan rai cyfryngwyr y cymwysterau ffurfiol na'r achrediadau angenrheidiol. O ganlyniad, bydd rhieni'n dod i gysylltiad ag arferion anghyson a chamarweiniol, o bosibl Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd rhai cyfryngwyr yn gyndyn i gynnig yr amrywiaeth gyfan o opsiynau i rieni rhag ofn y byddant yn colli allan ar waith (Connors a Thomas, 2014). Er bod yr ymatebwyr hefyd o'r farn bod cyfryngwyr yn dibynnu ar eu gwybodaeth o wasanaethau lleol a sefydliadau. Yn unol â hyn, mae gwahaniaeth rhwng cyngor a chymorth â thâl a heb dâl. Fel gwasanaeth y mae'n rhaid talu amdano, gallai'r syniad o gyfryngu fod yn llai deniadol na mynd i'r llys. Felly, pe bai'r cyfarfod MIAM yn cael ei ddatblygu, mae potensial y gallai annog rhieni i ystyried opsiynau ar wahân i'r llys. Mae canfyddiadau ail adroddiad y Gweithgor Cyfraith Breifat (2020) wedi awgrymu y byddai'n rhaid iddo gael ei ddatblygu mewn ffordd sy'n cynnwys hyfforddiant i staff llysoedd am gyfarfodydd MIAM a'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â chyfryngu.

Yr ail thema oedd yr angen am sefydliad mantell. Roedd hyn yn seiliedig ar arsylwadau bod y ddarpariaeth bresennol yn dameidiog (*Lucy, sefydliad preifat*). Mae hyn yn tynnu sylw at y farn gyffredinol y dylai'r Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu ddod â'r ddarpariaeth bresennol at ei gilydd er mwyn osgoi dyblygu. O ran cynnwys y Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu o fewn darpariaeth bresennol, nid oedd yr ymatebwyr yn sicr pa un fyddai'n fwyaf addas - Dechrau'n deg, sef rhaglen sefydledig sy'n darparu cymorth dwys i deuluoedd â phlant 0-3 oed, neu ddarpariaeth Tîm o Amgylch y Plentyn Teuluoedd yn Gyntaf. Wrth wneud hynny, byddai'r Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n

Gwahanu yn elwa ar gynghreiriau amlasiantaethol, amlddisgyblaethol sefydledig sy'n gweithio gyda'r teulu cyfan. At hyn, mae rhai o fentrau Teuluoedd yn Gyntaf eisoes wedi cynnwys lleihau gwrthdaro fel rhan o'u darpariaeth. I'r gwrthwyneb, nodwyd y gallai'r elfen statudol rwystro rhai rhieni rhag defnyddio'r gwasanaeth. Serch hynny, un enghraifft a gododd o'r data oedd rôl y Tîm o Amgylch y Teulu wrth sefydlu partneriaethau effeithiol er mwyn cyflawni nod cyffredin (Llywodraeth Cymru, 2017). Er yr ymddengys y byddai cynnwys y Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu o fewn darpariaeth bresennol Tîm o Amgylch y Teulu yn cael budd o bartneriaethau cydweithredu presennol, gan gynnwys gwaith a fabwysiadwyd eisoes o raglen WT4C, roedd yr ymatebwyr yn amheus o'r syniad hwn. Roedd yr amheuaeth yn seiliedig ar natur amrywiol y Tîmau o Amgylch y Teulu sydd ar waith ledled Cymru. Tra bod rhai yn rhoi gweithiwr allweddol penodol i deuluoedd, mae eraill wedi dewis cymryd rôl gydgysylltu, â'r nod o ddod â gwasanaethau at ei gilydd. At hyn, mae Tîmau o Amgylch y Teulu wedi bod yn ddibynnol i raddau helaeth ar yr arlwy lleol, a all arwain at wahaniaethau yn yr ystod o wasanaethau a ddarperir mewn lleoliadau gwahanol.

Y drydedd thema oedd cynnwys y Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu o fewn chwaer-gangen i Cafcass Cymru. Byddai dull gweithredu o'r fath yn cydnabod datganoli swyddogaethau Cafcass, adran 35 o Ddeddf Plant 2004, a bennodd fod swyddogaethau Cafcass Cynulliad Cymru yn ymwneud ag achosion teuluol lle y mae amheuaeth ynghylch llesiant plant, neu lle y gallai fod amheuaeth o'r fath. Mae'r adran yn disgrifio'r swyddogaeth 'cymorth', gan nodi ei fod yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth arall i'r plant a'u teuluoedd'. Awgrymwyd bod Cafcass a Cafcass Cymru wedi ei dehongli i olygu ei bod yn cyfeirio at blant sydd eisoes yn rhan o achos llys. Mae barn o'r fath yn negyddu'r syniad o gynnig gwasanaethau i deuluoedd lle nad oes unrhyw gais presennol i'r llys. Yn yr un modd, mae'r darpariaethau ar gyfer gweithgarwch cyswllt a ychwanegwyd at adran 11 o Ddeddf Plant 1989 yn 2008 yn cyfeirio at achosion llys yn unig. Fodd bynnag, o ystyried bod gweithgarwch cyswllt yn cynnwys mynediad at wasanaethau cymorth lleol crybwyllwyd y cysylltiad posibl rhwng swyddogaethau Cafcass/Cafcass Cymru a datrys anghydfodau y tu allan i'r llys. Yn wir, roedd hyn yn dilyn canfyddiadau gan ail adroddiad y Gweithgor Cyfraith Breifat (2020),

cynigiwyd gan rai y gallai neu y dylai pwerau statudol Cafcass gael eu hymestyn i gynnwys y cyfrifoldeb hwn (ymysg ymgynghoreion eraill, cafodd y farn hon ei mynegi gan y Gymdeithas Barnwyr Rhanbarth... (para 46))

Fodd bynnag, mae adroddiad y Gweithgor Cyfraith Breifat yn dod i'r casgliad canlynol (heb unrhyw drafodaeth),

Mae yna cydbwysedd i'w daro rhwng fodel comisiynu sydd wedi'i deilwra i anghenion lleol, a'r angen am lasbrint cenedlaethol gyson

sy'n osgoi loteri cod post. O ystyried yr amrywiaeth o wasanaethau a gynigir, nid yw adroddiad y Gweithgor Cyfraith Breifat o'r farn y gallai nac y dylai Cafcass ei hun (sydd, fel y diffinnir gan statud¹⁶, yn gorff 'cynghori llysoedd' gael ei addasu ar gyfer y rôl hon. (para 47)

Cyfeiriodd y llenyddiaeth ymchwil at brosiect peilot Cafcass, Cefnogi Rhieni sydd wedi Gwahanu mewn Anghydfod (SSPID), a gynhaliwyd rhwng 2014 a 2017. Cynhaliwyd prosiect SSPID mewn pum ardal yn Lloegr ac roedd yn cynnig llinell gymorth am ddim a weithredwyd gan Cafcass. Roedd y rhai a oedd yn ffonio'r llinell gymorth yn cael gwybodaeth a chyfarwyddyd diduedd gan un o weithwyr profiadol Cafcass. Fel pwynt cyswllt unigol, roedd y gweithiwr Cafcass yn cyflawni rôl gweithiwr achos, gan nodi anghenion y sawl a oedd yn galw, ei roi mewn cysylltiad â gwasanaethau lleol priodol ac yn cadw mewn cysylltiad i weld pa gynnydd a wnaed. Yn ôl gwefan Cafcass, roedd y gwerthusiad yn gadarnhaol ar y cyfan. Fodd bynnag, nid oedd dolen i'r adroddiad gwerthuso.

6.5.1 Senario dau

Gydag adnoddau ychwanegol yn gyfyngedig, mae'n rhaid i senario dau ddarparu sefydliad mantell i reoli'r ddarpariaeth bresennol. Byddai cynnwys y Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu o fewn Cafcass yn cyd-fynd â'r Rhaglen Trefniadau Plant, gan ei bod yn pwysleisio'r angen i'r llys a'r rhai sy'n gweithio yn y system cyfiawnder teuluol roi ystyriaeth i ddatrys anghydfod y tu allan i'r llys bob amser - Cyfarwyddyd Ymarfer 12B: Mae'n rhaid i'r barnwr ystyried, ar bob cam o'r achos llys, a fyddai proses datrys anghydfod y tu allan i'r llys yn briodol (para 6.1). Yn y Gwrandawriad Cyntaf a'r Apwyntiad Datrys Anghydfod (FHDRA), anogir y llys a Cafcass yn benodol i gyfeirio'r partïon at wasanaethau datrys anghydfod y tu allan i'r llys (para 14.13).

Gellir dadlau, felly, gan fod Cafcass Cymru yn sefydliad sefydledig sy'n canolbwyntio ar y plentyn sydd â throsolwg cyffredinol o'r gwasanaethau cyfryngu a'r gwasanaethau teulu sydd ar gael, yn ystod achosion llys, y byddai sefydlu'r Gynghrair yn rhan ohono yn osgoi dyblygu diangen. Yn hyn o beth, gallai Cynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu sy'n rhan o Cafcass gael ei llywio tuag at ymdrin â'r gwrthdaro sylfaenol rhwng y rhieni yn hytrach na dim ond cyfeirio rhieni oddi wrth y llys yn y tymor byr,

hyd yn oed pan fydd achosion yn mynd i'r llys, a bod yr hwb hwn neu'r Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu, yn mynd i fod wrth eu hochr yn ystod yr achos llys ac yn eu cefnogi wedi hynny fel nad ydynt yn cadw i ddychwelyd i'r llys â dadl sydd wedi ymwreiddio'n ddyfnach (*Jennifer, gwasanaeth statudol*)

Felly, byddai'r Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu yn anelu at roi'r sgiliau sydd eu hangen ar rieni i flaenoriaethu anghenion y plentyn, cyfathrebu â'i gilydd a datrys eu hanghytundeb,

pe bai achos yn dod i mewn, gellid ei gyfeirio at amrywiaeth o leoedd posibl. Efallai y byddai angen ei gyfeirio at wasanaeth cwnsela, neu wasanaeth cyfryngu. Efallai y byddai angen ei gyfeirio at wasanaeth chwarae. Mae amrywiaeth o wahanol leoedd a allai gyfrannu at roi'r cymorth hwnnw (*Michelle, Gwasanaeth Statudol*)

Byddai datrys y materion sylfaenol yn lleihau'r tebygolrwydd y byddai'r rhieni'n troi at y llys bob tro y bydd anawsterau'n codi. Byddai cangen ar wahân o Cafcass gydag enw gwahanol yn dangos yn glir i deuluoedd eu bod yn cael eu cyfeirio at wasanaethau, yn hytrach na bod Cafcass yn cynnal ymchwiliad. Argymhellir y dylid cynnal cynllun peilot tebyg i beilot SSPID Cafcass, yng Nghymru. Byddai'n ddefnyddiol gweld y gwerthusiad y cyfeirir ato uchod, er y rhagwelir y byddai gwahaniaeth mwy eglur rhwng gwaith llys Cafcass Cymru a rôl y Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu na fu yn y cynllun peilot yn Lloegr, yn ôl pob golwg. Byddai'r cynllun peilot yng Nghymru yn sefydlu tîm bach mewn un rhanbarth sy'n gyfrifol am gynnig cymorth ar-lein a dros y ffôn i rieni am opsiynau y tu allan i'r llys. Fel yn yr astudiaeth flaenorol, caiff gweithwyr allweddol eu neilltuo i'r sawl sy'n galw fel bod mod olrhain ei ymgysylltiad â gwasanaethau a'i ganlyniadau. Fodd bynnag, bydd y cynllun peilot yn adeiladu ar waith blaenorol yn cynnig hyfforddiant i staff llysoedd ar gyd-destun Cymru a'r gwasanaethau ychwanegol a ddarperir o dan y Cynllun Cymorth ar gyfer Asesu Plentyn.

6.6 Adnodd sylweddol a pharhaus

Gan dynnu ac adeiladu ar senario un gydag adnoddau sylweddol a pharhaus, gellid datblygu platfform yn canolbwyntio ar gydberthnasau yng Nghymru. Yn wir, mae adnodd o'r fath wedi'i sefydlu yn yr Alban, sef 'Relationships Scotland', a gyflawnir gan chwaer-sefydliad i Relate. Mae 'Relationships Scotland' yn dod â 21 o aelodau at ei gilydd i ddarparu gwasanaethau cwnsela, cyfryngu a chanolfannau cyswllt. Wrth wneud hynny, mae'n cael grant blynyddol gan Lywodraeth yr Alban o £1.5m, a ddefnyddir yn bennaf i gyflogi staff sy'n goruchwyllo hyfforddiant a safonau ymarfer yr aelod-sefydliadau. Drwy ddilyn llwybr o'r fath yng Nghymru, gallai 'Cydb berthnasau Cymru' gwmpasu dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar y teulu cyfan er mwyn cyfeirio teuluoedd oddi wrth lysoedd teulu. Felly, gallai aelod-sefydliadau weithredu'n ehangach na chwnsela, cyfryngu a chanolfannau cyswllt i gynnwys darpariaeth awdurdodau lleol fel y Tîm o Amgylch y Teulu, sefydliadau elusennol mawr fel Barnado's a Gingerbread, ynghyd â sefydliadau elusennol lleol llai. Yn wahanol i sefydliad yr Alban, ni fyddai angen swyddogaethau rheoleiddio pe byddent eisoes yn gymwys yng Nghymru a Lloegr, er enghraifft ar gyfer cyfryngu teuluol. Yn unol â chanfyddiadau'r arolwg ac ansicrwydd

ynghylch mynediad at gymorth digidol, byddai angen i blatfform Cydberthnasau Cymru gael llinell gymorth benodol i gyfeirio rhieni at gyngor a gwybodaeth ar y platfform a/neu at wasanaethau penodol a ddarperir. Gan gyfeirio at gyfyngiadau a ddaeth i'r amlwg ar ap 'Sorting Out Separation' a ddatblygwyd yn Lloegr (Connors a Thomas, 2014), dylai'r platfform gynnwys adnodd asesu ar-lein a fydd yn eu cyfeirio at y cymorth mwyaf priodol,

byddai rhywfaint o wybodaeth yno, ond yna, byddai'n eu cyfeirio at y sefydliad cywir i gael cymorth. Ac unwaith eto, yr un yw'r cymhelliad sef galluogi rhieni i gael cymorth cyn iddynt fynd i'r llys, cyn i bethau waethygu (*Stephanie, sefydliad elusenol*)

Hwn oedd yr opsiwn a ffeirir yn y cyfarfod ymgynghori. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai teuluoedd yn gallu defnyddio'r platfform ar yr amod bod pum maen prawf yn cael eu bodloni. Yn gyntaf, dylai'r platfform gael ei farchnata i weithwyr proffesiynol a theuluoedd fel y prif blatfform ar gyfer cyngor a chymorth â chydberthnasau. Yn ail, dylai'r platfform gynnig mynediad cyfartal i sefydliadau statudol ac anstatudol bach a mawr ledled Cymru. Yn drydydd, dylai'r platfform gynnig amrywiaeth eang o gymorth yn hytrach na chynnig cymorth drwy lwybr rhagnodol neu lwybr wedi'i bennu ymlaen llaw. Yn bedwerydd, dylai'r wybodaeth gael ei diweddarau'n rheolaidd. Yn bumed, pwysleisiwyd yr angen i sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau bod ymarferwyr a rhieni yn cael gwybodaeth a chynghor credadwy. O ran yr ansicrwydd ynghylch p'un a fyddai teuluoedd agored i niwed yn defnyddio'r platfform, mae canfyddiadau'r gwerthusiad o'r ap ar y we, Sorting Out Separation (Connors a Thomas, 2014) yn awgrymu bod grwpiau wedi'u tangynrychioli fel rhieni BAME a rhieni anweladwy fel tadau wedi dweud y byddent yn defnyddio gwybodaeth ar-lein. Dangosodd canfyddiadau'r gwerthusiad (ibid) fod gan gyfranogwyr farn gadarnhaol am ap Sorting Out Separation am ei fod yn coladu ystod eang o wybodaeth ar un safle mewn modd hygrych. Ym ymarferol, roedd yr ap wedi galluogi rhieni i gael gafael ar wybodaeth ddiduedd yn ddienw ar adeg gyfleus. Fodd bynnag, roedd y gallu i'w ddefnyddio wedi'i gyfyngu gan brinder gwybodaeth ar bynciau allweddol (Connors a Thomas, 2014).

6.6.1 Senario tri

Gydag adnodd sylweddol a pharhaus, mae senario tri yn cynnwys creu Cydberthnasau Cymru, sef platfform ar-lein gyda llinell gymorth. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r cyfweiliadau, byddai angen i Cydberthnasau Cymru gysoni â rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ac ymrwymiad Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Er mwyn cysoni â hi, byddai angen cynnwys cymorth i deuluoedd, rhaglenni rianta, cyfryngu a chanolfannau cyswllt yn ogystal â sicrhau bod dulliau gweithredu tu allan i'r llys eraill wedi'u cynnwys yn y gronfa o adnoddau a gynigir. Mewn ymateb i adborth o'r ymgynghoriad, mae'n hanfodol bod y platfform yn darparu ar gyfer neiniau a theidiau a'r teulu estynedig. Bydd Cydberthnasau Cymru yn amlinellu'r lefelau gwahanol o gymorth i

deuluoedd, gyda diffiniad clir rhwng yr amrywiaeth o gymorth a chyngor sydd ar gael. Drwy gyfeirio yn y modd hwn, bydd rhieni'n gallu cael gafael ar gymorth priodol drwy ddarparu gwybodaeth yn ddigidol, drwy'r adnodd asesu ar-lein neu drwy'r llinell gymorth.

Wrth greu Cydberthnasau Cymru, bydd rhaid bodloni'r pum maen prawf a amlinellir. Felly, dylai'r platfform gael ei farchnata i'r cyhoedd er mwyn ei sefydlu fel y prif adnodd ar gyfer gwybodaeth a chymorth â chydberthnasau. Awgrymir y dylai'r platfform gael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru er mwyn hybu hygyrddedd a'i sefydlu fel brand yr ymddiriedir ynddo (Connors a Thomas, 2014). Rhagwelir y bydd darpariaeth bresennol fel Teuluoedd yn Gyntaf, Timau o Amgylch y Teulu a TICD yn hyrwyddo'r platfform. Er mwyn diwallu anghenion plant a theuluoedd a'u hatal rhag troi at y llys i ddatrys eu problemau, bydd yn rhaid i Cydberthnasau Cymru gynnig mwy na gwasanaethau statudol. Bydd hyn yn golygu bod yn rhaid ystyried ffyrdd o feithrin ymgysylltiad parhaus gan sefydliadau elusennol a phreifat o fewn yr ansicrwydd economaidd presennol.

Senario tri oedd yr opsiwn a ffeirir ym mhob un o'r cyfarfodydd ymgynghori, ond hwn oedd yn cyflwyno'r heriau mwyaf i gynllun peilot. Heb unrhyw adnodd presennol, byddai angen i astudiaeth beilot sefydlu tîm a all greu'r platfform a thrafod partneriaethau â gwasanaethau presennol yn y rhanbarth. Fodd bynnag, pe bai'r opsiwn hwn yn cael ei ddewis, rhagwelir y dylai'r tîm drefnu cyfarfod â thîm rheoli Relationships Scotland i weld sut y sefydlwyd yr adnodd.

7.0 Trafodaeth

Amlygodd yr astudiaeth gwmpasu hon yr angen i symud oddi wrth syniadau traddodiadol o'r teulu niwclear, elfennol neu briodasol, a thuag at gwmpasu amrywiaeth o wahanol strwythurau teuluol. Yn y gymdeithas sydd ohoni gall plant gael eu magu gan amrywiaeth o ofalwyr, gan gynnwys aelodau o'r teulu estynedig a theuluoedd ailgyfansoddedig. Pan fydd cydberthnasau yn chwalu, mae cynnal cydberthynas gadarnhaol rhwng y rhieni sydd wedi gwahanu, lle gallant rannu dyletswyddau gofal y plentyn yn gyfeillgar a chymryd rhan mewn trefniadau plant hyblyg, yn gysylltiedig ag amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol i blant (Maxwell, Doughty and Scourfield, 2014). Ac eto, mae lefelau gwrthdaro ar eu huchaf yn ystod y cyfnod gwahanu a phan fydd materion cyswllt a gwahanu yn cael eu trafod (Nielsen, 2013). Fodd bynnag, dylid nodi y gall gwrthdaro ddigwydd ar unrhyw adeg cyn, yn ystod neu ar ôl gwahanu os na fydd y rhieni'n cadw at gytundebau cyswllt a/neu syniadau o degwch yn y trefniadau rhianta. Pan fydd problemau'n codi o ran preswyllo a chyswllt, ymddengys mai troi at lysoedd teulu yw'r opsiwn diodyn i rieni nad ydynt yn ymddangos yn ymwybodol neu'n awyddus i ymgysylltu â dulliau amgen o ddatrys anghydfodau y tu allan i'r llys. Gall achosion llys gael eu drysu ag anghydfodau rhwng rhieni, gyda rhanddeiliaid yn nodi y gall rhieni ystyried bod mynd i'r llys yn gyfle i gael y llaw drechaf. Yn ymarferol, mae gan rieni ddisgwyliadau afrealistig o'r llys. Gwella'r gydberthynas rhwng rhieni yw'r prif offeryn ar gyfer datrys anghydfod cyn, yn ystod, ac ar ôl gwahanu. Mae angen cynghrair sy'n hyrwyddo cyfathrebu rhwng rhieni ac sy'n cefnogi llesiant rhieni a lles pennaf y plentyn.

Dangosodd y canfyddiadau bum prif thema. Yn gyntaf, er mwyn i'r Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu fod yn effeithiol, mae angen ystyriaeth eang ei bod yn dderbyniol i geisio a derbyn cymorth a chefnogaeth ar gyfer tor-perthynas. Byddai mabwysiadu model iechyd y cyhoedd sy'n hyrwyddo cydberthnasau iach ac yn normaleiddio cymorth cydberthnasau yn helpu i ddileu'r stigma sy'n gysylltiedig â cheisio cymorth cydberthnasau ar bob cam o'r gydberthynas (Pote et al., 2019). Dylai dull gweithredu o'r fath ymestyn darpariaeth bresennol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn ysgolion (Llywodraeth Cymru, 2019) a bod yn gyson â nod y cwricwlwm newydd i ddatblygu unigolion iach a hyderus a all 'ffurfio cydberthnasau cadarnhaol wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd' (Llywodraeth Cymru, 2020). Gallai hyn helpu i leihau achosion o dor-perthynas neu liniaru'r effeithiau pan fydd cydberthnasau yn dod i ben. Dylai dull iechyd y cyhoedd hefyd chwalu mythau am uchafiaeth ceisiadau llys cyfraith breifat. Yn y mwyafrif helaeth o achosion, dylid ond mynd i'r llys pan fetho popeth arall, a dylid ond ei ystyried pan fydd amrywiaeth o opsiynau y tu allan i'r llys wedi methu.

Yn ail, yn ogystal â normaleiddio ceisio cymorth cydberthnasau, mae angen codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael. Er bod amrywiaeth o wasanaethau presennol sy'n darparu cymorth uniongyrchol neu anuniongyrchol i rieni sy'n gwahanu, mae'r cymorth hwn yn ddarniog ar hyn o bryd. At hyn, nid yw'n glir pa

chymorth a chefnogaeth sydd ar gael a pha wasanaethau penodol y mae sefydliadau'n eu cynnig. At hyn, gall fod barn negyddol am adnoddau presennol oherwydd bod rhieni'n ofni gwasanaethau statudol neu'n amheus o'r hyn y mae ymgysylltu yn ei olygu. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r gynghrair godi ymwybyddiaeth a dileu ofnau am ymgysylltu yn ogystal â hyrwyddo amrywiaeth o wasanaethau amlddisgyblaethol. Wrth wneud hynny, caiff rhieni eu grymuso i gymryd cyfrifoldeb a nodi'r ffurf fwyaf addas ar gymorth ar gyfer eu hamgylchiadau unigol cyn, yn ystod ac ar ôl gwahanu (Marjoribanks, 2015).

Yn drydydd, dylai'r gynghrair gynnig presenoldeb digidol a phersonol. Gan dynnu ar ganfyddiadau o'r grŵp ffocws pobl ifanc, dylai'r gynghrair fod yn siop un stop yn cynnig cymorth parhaus ac wedi'i deilwra i deuluoedd. At hyn, dylai'r gynghrair gynnig cymorth amserol i bob teulu a phob aelod o'r teulu. Mae hyn yn rhoi pwyslais ar sicrhau mynediad cyfartal i bawb, gan gynnwys y grwpiau hynny sy'n llai tebygol o ymgysylltu â gwasanaethau, gan gynnwys y rhai sy'n gwrthod gwasanaethau, y rhai sydd wedi'u tangynrychioli a'r anweladwy (Barrett, 2008). O ran cymorth amserol, roedd y canfyddiadau'n dangos y gall problemau ymwreiddio pan gaiff mynediad at wasanaethau ei ohirio. Mae hyn yn golygu bod angen ymateb ar unwaith a mynediad at wasanaethau heb restrau aros. Hefyd, lle bydd rhieni yn ceisio cymorth, mae hyn yn dueddol o fod mewn ymateb i broblem sydd wedi codi a lle ceisir mynediad ar unwaith at gymorth (Adran Gwaith a Phensiynau, 2019). Tra bydd adnodd digidol yn hwyluso ymateb ar unwaith, mae'n bosibl y bydd yn well gan rai rhieni fod y cymorth yn cydnabod neu'n cyfleu'r problemau maent yn eu hwynebu (Pote et al., 2019). Awgryma hyn fod angen proses gyfeirio neu adnodd asesu o ryw fath er mwyn annog rhieni i ystyried ffurfiau eraill ar gymorth emosiynol neu gymorth cydberthnasau.

Yn bedwerydd, dylid hefyd ystyried cynnwys plant a phobl ifanc. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod cyfeirio cyfyngedig at gymorth a chymorth cyfyngedig ar gael i blant a phobl ifanc sy'n ceisio mwy o wybodaeth pan fydd rhieni'n gwahanu. Ac eto, o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2010, mae gan blant a phobl ifanc hawl i roi eu barn ar faterion barnwrol a gweinyddol sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'r gyfraith yn rhagdybio ei bod er lles y plentyn i'r ddau riant chwarae rhan yn eu magwraeth ond, yn hytrach na gwneud y penderfyniadau hyn ar ran plant, dylid ystyried sut i'w cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau mewn ffordd ystyrlon, fel eu cynnwys yn y broses gyfryngu.

Yn olaf, er nad oedd yr astudiaeth wedi'i hanelu at ystyried effaith COVID-19, disgwyliwyd y bydd y gyfradd o rieni sy'n gwahanu yn cynyddu yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf (Prasso, 2020). Mae teuluoedd wedi wynebu straen yn ystod y cyfyngiadau symud hir ac wrth iddynt lacio ac wrth i gymunedau symud i gadw pellter cymdeithaso, nid oes amheuaeth y bydd cyfraddau cynyddol o ddiweithdra yn effeithio ar deuluoedd. Gwelwyd effeithiau uniongyrchol hyn, lle mae'r mesurau cadw pellter cymdeithasol wedi'u defnyddio fel ffordd o atal plant rhag cael cyswllt â'r rhiant arall. Yn

anuniongyrchol, bydd COVID-19 yn effeithio ar deuluoedd oherwydd y lefelau cynyddol o ddiweithdra a thlodi a'r ansicrwydd a fydd yn parhau am hynt y feirws a phryderon am yr ail don. Mae canfyddiadau o'r fath yn tynnu sylw at yr angen am Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu.

Nododd yr astudiaeth gwmpasu hon dri senario sy'n mynd i'r afael â phob un o'r pum thema i wahanol raddau. Yn senario un, mae cysylltu'r Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu â'r Gronfa Gynghori Sengl yn cynnig y fantais ychwanegol o bresenoldeb presennol Cyngor ar Bopeth yng Nghymru a'i enw da fel adnodd cynhwysfawr a chredadwy. Wrth wneud hynny, mae gan senario un y potensial i gynnig cymorth lleol gan swyddfeydd Cyngor ar Bopeth presennol yn ogystal â gwasanaethau cenedlaethol. At hyn, mae'r Gronfa Gynghori Sengl wedi'i dylunio i olrhain a gwella ymgysylltiad â gwasanaethau. Mae hyn yn golygu bod potensial i senario un gael ei alinio â'r Gronfa Gynghori Sengl, gan elwa ar waith mireinio parhaus ar yr un pryd. Fodd bynnag, mae cyllid cyfnod penodol yn peri risg na chaiff y gwasanaeth ei gynnal ar ôl mis Rhagfyr 2020. Cynaliadwyedd y Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu oedd un o'r ffactorau allweddol a nodwyd yn yr astudiaeth hon. Mae senario dau yn cynnig ymestyn darpariaeth Cafcass Cymru drwy ymestyn ei gyloch gwaith i'r amryfal deuluoedd na fyddant yn elwa ar gais cyfraith breifat. Roedd y syniad hwn braidd yn gynhennus am fod barn gymysg o ran i ba raddau y dylai Cafcass ddarparu cymorth mewn achosion sy'n addas i'w cyfeirio o'r llysoedd. Fodd bynnag, mae nodau gwreiddiol sefydlu Cafcass a Cafcass Cymru, ynghyd â nodau'r Rhaglen Trefniadau Plant yn awgrymu fel arall, ac mae cynnwys y Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu o fewn Cafcass Cymru yn esgor ar nifer o fanteision fel gwybodaeth ac arbenigedd bresennol, gan gynnwys rhaglen WT4C, a phrofiad o asesu gofynion cymorth teuluoedd. O'r tri senario, ymddengys mai hwn yw'r opsiwn y gellir ei roi ar waith hawsaf â llai o ansicrwydd ynghylch cynnal y gynghrair dros amser. Yn olaf, senario tri sy'n cynnig yr opsiwn mwyaf uchelgeisiol. Mae'r opsiwn hwn yn cynnig platfform newydd wedi'i ddylunio i gysylltu'r holl gymorth a chynghor ar gydberthnasau. Yr opsiwn hwn sy'n cyflwyno'r cyfle i hyrwyddo newid diwylliannol ledled Cymru, lle bydd ceisio help a chymorth cydberthnasau yn cael ei normaleiddio ar gyfer pobl o bob oed ar bob cam o'u bywydau. Bydd creu platfform newydd ar gyfer y Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu gyda llinell gymorth yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r brand, yn siop un stop ar gyfer cymorth a chefnogaeth ddigidol a phersonol, ac ar yr un pryd yn grymuso rhieni a gofawyr i nodi adnoddau sydd wedi'u teilwra i'w hanghenion. O'r tri senario, senario tri sy'n cynnig y potensial mwyaf ar gyfer datblygu yn y dyfodol gan y bydd modd ehangu'r platfform wrth i adnoddau newydd gael eu creu. Drwy gysylltu'r platfform â Llywodraeth Cymru, mae hefyd yn cynnig y fantais o welededd, hygyrddedd a sicrwydd ansawdd.

Ni waeth pa senario a ffeirir, mae angen clir am gynghrair cefnogi teuluoedd sy'n gwahanu sy'n meithrin cydberthnasau rhwng rhieni a gofawyr ac sy'n blaenoriaethu datrys er budd gorau'r plentyn. Wrth wneud hynny, bydd y gynghrair yn llwyddo dim ond

os bydd gan deuluoedd yr adnoddau ariannol i dalu am wasanaethau preifat, lle y bo'n briodol, a bod sefydliadau'n gallu parhau i gynnig y gwasanaethau hyn ar ôl Covid-19.

Cyfeiriadau

- Amato, P. R. (2006). Marital discord, divorce, and children's well-being: Results from a 20-year longitudinal study of two generations. Yn A. Clarke-Stewart a J. Dunn (Goln.), *Families count, effects on child and adolescent development* (tt. 179-202). Efrog Newydd, NY: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.
- Barrett, H. (2008). *'Hard to Reach' Families: Engagement in the Voluntary and Community Sector*. Family and Parenting Institute
- Coffey, A., ac Atkinson, P.A. (1996). *Making sense of qualitative data: Complementary research strategies*. Sage Publications, Inc.
- Connors, C. a Thomas, A. (2014) Sorting out Separation Web app: Evaluation of effectiveness. Adroddiad Ymchwil Rhif 863 Llundain: Adran Gwaith a Phensiynau
- Cusworth, L. et al. (2020) Who's coming to court? Private family law applications in Wales. Llundain: Nuffield Family Justice Observatory.
- Department for Work and Pensions (2019) *Reducing parental conflict: a digital discovery*. Llundain.
- Doughty, J. Maxwell, N. a Slater, T. 2018. (2018). Review of research and case law on parental alienation. Cafcass. Adroddiad y Prosiect.
- Edwards, D. a Parkinson, K. (2018). *Family group conferences in social work: Involving families in social care decision making*. Gwasg Prifysgol Bryste.
- Panel yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol (2011). *Yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol*. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yr Adran Addysg a Llywodraeth Cymru.
- Fehlberg, B., Smyth, B., Maclean, M., a Roberts, C. (2011). Legislating for shared time. Parenting after separation: a research review. *International Journal of Law, Policy and the Family*, 25(3), 318.
- Fox, D. (2018). *Family Group Conferencing with Children and Young People: Advocacy Approaches, Variations and Impacts*. Palgrave Macmillan.
- OECD (2011) *Doing better for families*.
- Lebrow, J.L. (2020). The Challenges of Covid-19 for Divorcing and Post-divorce Families. *Family Process*, early access.
- Nelson, A., de Normanville, C., Payne, K. a Kelly, M.P. (2012). Making Every Contact Count: an evaluation, *Public Health*, 1-8.

- Nielsen, L. (2013). Shared residential custody: Review of the research (Part I of II). *American Journal of Family Law*, 27(1), 61–71.
- Making Every Contact Count Link (2020). *Population Wellbeing Portal* <https://www.mecclink.co.uk/> (cyrchwyd 11.8.20)
- Marjoribanks, D. (2015) *Breaking up is hard to do: assisting families to navigate family relationship support before, during and after separation*, Relate.
- Maxwell, N., Scourfield, J. B., Featherstone, B., Holland, S. a Tolman, R. (2012). Engaging fathers in child welfare services: A narrative review of recent research evidence. *Child and Family Social Work*, 17(2), 160-169.
- Maxwell, N., Doughty, J. a Scourfield, J. (2014). *A review of recent research evidence on the outcomes of court-imposed shared residence for children following divorce or separation*. Cafcass: heb ei gyhoeddi.
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2020). *Assessing risk of harm to children and parents in private law children cases*.
- Murch, M. (2018). *Supporting children when parents separate: Embedding a Crisis Intervention Approach Within Family Justice, Education and Mental Health Policy*. Policy Press.
- Philip, G. a O'Brien, M. (2017). Are interventions supporting separated parents father inclusive? Insights and challenges from a review of programme implementation and impact. *Child and Family Social Work* 22, 1114(1127), 160-169.
- Pote, I., Doubell, L., Brims, L., Larbie, J., Stock, L. a Lewing, B. (2019). *Engaging disadvantaged and vulnerable parents: an evidence review*. Sefydliad Ymyrraeth Gynnar.
- Prasso, S. (2020). China's divorce spike is a warning to the rest of locked-down world. *Bloomberg* <https://www.bloomberg.com/news/articles/2020-03-31/divorces-spike-in-china-after-coronavirus-quarantines> (cyrchwyd 25.8.20)
- Gweithgor Cyfraith Breifat (2020). *Private Law: Family Disputes*. Ail adroddiad
- Gweithgor Cyfraith Breifat (2019). *A review of the child arrangements programme [PD12B FPR 2010]*.
- Pruett, M. K. a DiFonzo, J. H. (2014). Closing the gap: research, policy, practice, and shared parenting. *Family Court Review*, 52(2), 152–174.

- Rees, A., Casserly, N. a Maxwell, N. (2020). *Developing an effective model for IFST to reduce interpersonal conflict and abuse in families with children*. Adroddiad heb ei gyhoeddi: CASCADE.
- Connors, C. a Thomas, A. (2014) *Sorting out Separation Web app: Evaluation of effectiveness*. Adran Gwaith a Phensiynau, Llundain.
- TNS BMRB (2016) *Help and Support for Separated Families Innovation Fund Evaluation*. Adran Gwaith a Phensiynau, Llundain.
- Waterman, H., Tillen, D., Dickson, R. a de Koning, K. (2001). Action research: a systematic review and assessment for guidance, *Health Technology Assessment*, 5 (23).
- Llywodraeth Cymru (2017). *Teuluoedd yn gyntaf*
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/teuluoedd-yn-gyntaf-canllawiau-i-awdurdodau-lleol.pdf>
- Llywodraeth Cymru (2018). *Y Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor ar gyfer Cymru*
- Llywodraeth Cymru (2019). *Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn ysgolion*.
<https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-02/addysg-cydberthynas-a-rhywioldeb-mewn-ysgolion-canllawiau.pdf> (cyrchwyd 25.8.20)
- Llywodraeth Cymru (2020). *Hwb: Cwricwlwm i Gymru*. <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/datblygu-gweledigaeth-ar-gyfer-dylunio-cwricwlwm/#curriculum-design-and-the-four-purposes> (cyrchwyd 25.8.20)

Atodiad A: Cyfweiliad lled-strwythuredig:

Cyflwyniad

1. Beth yw eich rôl?
 - Beth yw eich cyfrifoldebau?

Gwybodaeth am y sefydliad

1. Ym mha awdurdod lleol ydych chi'n gweithredu/darparu gwasanaethau?
2. Ers pa mor hir y mae eich sefydliad wedi bod ar waith?
3. Faint o staff amser llawn a rhan-amser y mae eich sefydliad yn eu cyflogi?
4. Ydych chi'n cynnig unrhyw gyfleoedd gwirfoddoli? Os felly, faint o wirfoddolwyr rydych chi'n eu cyflogi bob blwyddyn?
5. Pa fath o waith y mae eich sefydliad yn ei wneud?
 - Statudol/anstatudol neu breifat?
6. Sut ydych chi'n cael eich ariannu?
7. Sut y mae teuluoedd yn talu am eich gwasanaethau fel arfer?

Gwybodaeth am y gwasanaeth(au)

1. Pa wasanaethau y mae eich sefydliad yn eu darparu i deuluoedd sy'n gwahanu?
 - Beth yw natur y gwasanaeth hwnnw/gwasanaethau hynny? Beth y mae hyn yn ei gynnwys? (os oes ganddynt unrhyw daflenni neu wybodaeth y gallant eu rhannu, byddai hynny'n ddefnyddiol)
2. Tua faint o rieni sydd wedi derbyn cymorth gan eich sefydliad dros y flwyddyn ddiwethaf o ran achosion lle bydd teuluoedd yn gwahanu?
3. Pwy sy'n defnyddio eich gwasanaethau yn bennaf? E.e. y ddau riant gyda'i gilydd, tadau yn unig, mamau yn unig, neiniau a theidiau, llysrieni.
4. A yw eich sefydliad yn cynnig gwasanaethau wedi'u teilwra i deuluoedd sy'n gwahanu E.e. o ran preswyllo, cyswllt neu gyngor ariannol.
5. Sut y bydd pobl yn cael gafael ar y gwasanaethau? E.e. atgyfeiriad ar-lein, ffôn, ymweliad â'r sefydliad, cyfryngau cymdeithasol, atgyfeiriad gan y llys/Cafcass, clywed amdanynt gan bobl eraill.
6. Ar ba bwynt yn ystod y broses wahanu y bydd pobl yn defnyddio eich gwasanaeth/gwasanaethau? E.e. cyn gwahanu (heb unrhyw gysylltiad â'r llys, ar ôl i gais llys teulu gael ei wneud, ar ôl gwahanu ond heb unrhyw gysylltiad â'r llys, ar ôl gwahanu ar ôl gorchymyn llys.
7. Beth yw'r prif resymau pam y mae teuluoedd sy'n gwahanu yn defnyddio eich gwasanaethau? E.e. Problemau ariannol, anghytuno am drefniadau plant.
8. A oes unrhyw wahaniaeth yn y math o gymorth y mae mamau a thadau sy'n gwahanu yn ei geisio?
9. Sut y caiff y gwasanaethau eu cyflwyno? E.e. dros y ffôn, wyneb yn wyneb grwpiau ac ati.
10. Ydych chi'n darparu gwasanaethau i blant? Os felly, beth?
 - O dan ba amgylchiadau?
 - Sut y byddant yn cael gafael ar y gwasanaethau?

- Sut y caiff y gwasanaethau eu cyflawni?
- 11. Am ba mor hir y bydd teuluoedd/defnyddwyr gwasanaeth yn defnyddio eich gwasanaethau?
- 12. A allwch amcangyfrif pa mor aml y mae eich gwasanaeth yn helpu i sicrhau datrysiad heb droi at y llys?
- 13. Ydych chi'n cyfeirio pobl at wasanaethau eraill?
 - Pa fath o wasanaethau? Pwy?
 - Ydych chi'n ymwybodol o wasanaethau eraill sy'n cefnogi teuluoedd pan fyddant yn gwahanu?

Amrywiaeth

- 14. A yw eich sefydliad yn cynnig ei wasanaethau yn Gymraeg? E.e. Pob gwasanaeth a deunydd ysgrifenedig, rhai gwasanaethau a deunyddiau ysgrifenedig, deunyddiau ysgrifenedig yn unig.
- 15. A yw eich sefydliad yn cynnig cyfleuster cyfieithu i deuluoedd nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf? E.e. Pob gwasanaeth a deunydd ysgrifenedig, rhai gwasanaethau a deunyddiau ysgrifenedig, deunyddiau ysgrifenedig yn unig.
- 16. Beth yw oedran y rhai sy'n defnyddio eich gwasanaeth/gwasanaethauyn eich barn chi?
- 17. Ydych chi'n addasu eich gwasanaeth/gwasanaethau i ddiwallu anghenion teuluoedd gwahanol? Sut? I bwy? (e.e. personau LGBTQO+, pobl anabl, cymunedau BAME a phobl â credoau crefyddol gwahanol)
- 18. Ydych chi'n addasu eich gwasanaethau fel bod pobl mewn gwahanol fathau o gydberthnasau yn gallu defnyddio eich gwasanaeth/gwasanaethau? Sut? (h.y. priodasau, partneriaethau sifil a chyd-fyw)
- 19. Beth yw'r mathau o bryderon/gofidiau sydd gan deuluoedd sy'n gwahanu ar y cam hwn o'r broses wahanu?

Cynghrair Teuluoedd Leol

- 20. Ydy'r gwasanaethau presennol yn diwallu anghenion teuluoedd sy'n gwahanu yn eich barn chi?
- 21. Ydych chi'n teimlo bod digon o gymorth gweladwy i deuluoedd sy'n gwahanu? Ac i blant y mae eu teuluoedd yn gwahanu?
- 22. A oes angen mwy o wasanaethau i gefnogi teuluoedd sy'n gwahanu yn eich barn chi?
- 23. A oes angen Cynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwahanu yng Nghymru yn eich barn chi?
- 24. Ym mha ffordd y gellid ei gwneud yn hygyrch iawn yn eich barn chi? (h.y. ar-lein, ap ffôn symudol ac ati)
- 25. A fyddai'n fuddiol i rieni yn eich barn chi? (h.y. oherwydd diffyg cymorth cyfreithiol ac oherwydd cynnydd yn nifer y bobl sy'n cynrychioli eu hunain)
- 26. A fyddai'n fuddiol i'r sector cyfreithiol yn eich barn chi? (h.y. llai o bwysau ar lysoedd a llai o bobl yn cynrychioli eu hunain a llai o'r achosion llai difrifol yn mynd i'r llys)
- 27. Pwy ddylai arwain pob cynghrair teuluoedd lleol yn eich barn chi?

Covid-19

- 28. Pa effaith, os o gwbl, ydych hi'n meddwl y bydd/y mae COVID-19 yn ei chael ar deuluoedd sy'n gwahanu?

29. Pa effaith, os o gwbl, ydych hi'n meddwl y bydd/y mae COVID-19 yn ei chael ar y gwasanaethau a ddarperir i deuluoedd sy'n gwahanu?

Dyna ddiwedd y cwestiynau. Yn eich barn chi, a oes unrhyw beth y dylem ei wybod am anghenion teuluoedd sy'n gwahanu neu'r gwaith o greu cynghreiriau teuluoedd lleol nad ydw i wedi gofyn amdano?

Diolch am eich amser.